


WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad blynyddol a chyfrifon

## yr Archwilydd Cyffredinol 2010-11

**Swyddfa Archwilio Cymru**

**24 Heol y Gadeirlan**

**Caerdydd**

**CF11 9LJ**

ffôn 02920 320 500
e-bost info@wao.gov.uk

gwefan www.wao.gov.uk
twitter twitter.com/ArchwilioCymru

© Archwilydd Cyffredinol Cymru

Paratowyd yr adroddiad blynyddol hwn a'r cyfrifon yn unol â pharagraff 13 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ar ffurf a gyfarwyddwyd gan y Trysorlys.

# Uchafbwyntiau

Penodwyd Archwilydd Cyffredinol newydd i Gymru

Cyhoeddwyd adroddiadau ar gyfrifon tua 840 o gyrff cyhoeddus yng Nghymru

Cyhoeddwyd 12 adroddiad cenedlaethol ar werth am arian mewn meysydd allweddol o wariant cyhoeddus, 28 adroddiad gwella blynyddol ar awdurdodau llywodraeth leol a chynhaliwyd asesiadau strwythuredig ymhob bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth GIG

Rhwng 2009 a 2011 bu lleihad o £1.27 miliwn neu 8.0 y cant mewn ffioedd mewn termau arian parod

Ymgynghorwyd ar strategaeth newydd i ardystio gwariant a ariennir gan grantiau mewn modd mwy costeffeithiol

Yn sgîl y Fenter Twyll Genedlaethol llwyddodd cyrff cyhoeddus i ganfod ac atal twyll a gwallau gwerth £7 miliwn

Lansiwyd tudalennau ‘cyflwyno adroddiadau ariannol amserol’ ein Cyfnewidfa Arfer Da

Cynhaliwyd Diwrnod Datblygu i Gadeiryddion Pwyllgorau Archwilio’r GIG a Seminar Fflyd Lwyd

Llofnodwyd cytundeb strategol â’r prif gyrff arolygu yng Nghymru er mwyn cydweithio’n well

Sicrhawyd arbedion cyffredinol o dros £1 filiwn drwy leihau costau a gwella effeithlonrwydd, a llwyddwyd i ennill ailachrediad ar Lefel 3 Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd

Sefydlwyd strwythur newydd yn cynnwys tri phwyllgor llywodraethu i oruchwylio materion yn ymwneud â chydnabyddiaeth, adnoddau ac archwilio a rheoli risg yn Swyddfa Archwilio Cymru

# Rhagair gan Archwilydd Cyffredinol Cymru



Dyma fy adroddiad blynyddol cyntaf fel Archwilydd Cyffredinol Cymru. Yn ystod chwe mis cyntaf y flwyddyn sydd dan sylw yn yr adroddiad hwn, roedd Swyddfa Archwilio Cymru o dan arweiniad fy rhagflaenydd, Gillian Body. Hoffwn ddiolch i Gillian a staff Swyddfa Archwilio Cymru am eu hymrwymiad a'u proffesiynoldeb cyson. Yn ddi-os, bu hon yn flwyddyn anodd, ond bu'n flwyddyn gynhyrchiol iawn serch hynny.

Ar ôl bod yn destun proses graffu allanol hir a manwl, mae Swyddfa Archwilio Cymru bellach yn gryfach ac yn fwy cymwys i wasanaethu pobl Cymru. Mae'r adroddiad blynyddol hwn a'r cyfrifon yn dangos yn glir iawn y ddisgyblaeth ariannol a'r ymrwymiad i dryloywder sy'n sail i'r sefydliad erbyn hyn. Mae fy nghyfrifon hefyd yn dangos ein hymdrechion dros y flwyddyn i sicrhau y caiff ein sefyllfa ariannol ei hadlewyrchu'n briodol a bod iddi sail gadarn.

Nod y trefniadau llywodraethu newydd a gyflwynwyd gennyf yw sicrhau y bydd yr Archwilydd Cyffredinol, waeth pwy fydd yn y swydd, yn destun fframwaith trylwyr a chadarn o rwystrau a gwrthbwysau. Croesawaf hefyd gamau gan Lywodraeth Cymru i ymgorffori'r egwyddor hon mewn deddfwriaeth. Fel y dywedais, mae wedi bod yn flwyddyn gynhyrchiol i ni. Blwyddyn lle mae Cymru wedi wynebu sawl her a lle mae wedi dechrau ailystyried ei hun yn genedl â phwerau deddfu ac wedi ethol ei phedwerydd Cynulliad. Gall Swyddfa Archwilio Cymru roi trosolwg o'r holl wariant cyhoeddus ac rydym wedi cyfrannu'n sylweddol at y drafodaeth genedlaethol ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus effeithiol ac effeithlon.

Mae archwilio ariannol yn ganolog i waith Swyddfa Archwilio Cymru. Mae wedi darparu sicrwydd ac wedi helpu i hybu gwelliant ymhob sector.

Ym maes iechyd, rydym wedi rhoi gwybodaeth i'r rhai sy'n gyfrifol am ailstrwythuro cyrff iechyd lleol, gan helpu'r sefydliadau newydd i ddysgu o brofiad eu rhagflaenwyr. Rydym hefyd wedi cyflwyno model asesu mwy strwythuredig a chyson ym maes iechyd a llywodraeth leol sydd wedi'i gwneud yn bosibl llunio cymariaethau mwy hyddysg ac adeiladol yn ein hadroddiadau i'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill. Yn sgîl ein hasesiadau gwella ym maes llywodraeth leol, sy'n cynnwys cynghorau, awdurdodau tân a pharciau cenedlaethol, rydym wedi gallu dod i gasgliadau ynghylch pa un a yw'r awdurdodau hynny yn barod i ddelio â chyfyngiadau llym.

Rydym wedi cyhoeddi adroddiadau gwerth am arian ar bynciau mor berthnasol ac amrywiol â phrosiectau trafnidiaeth mawr ac arlwyo mewn ysbytai. Ar y cyd â'r gwaith hwn, rydym wedi mynd ati i hyrwyddo effeithlonrwydd ac arloesedd. Rydym wedi gweithio ochr yn ochr â chyrff cyhoeddus i'w helpu i gymryd risgiau sydd wedi'u hystyried yn briodol a'u rheoli'n dda, gan ymdrechu bob amser i roi sicrwydd bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n briodol ac yn ddoeth.

Mae ein dull o weithredu yn adlewyrchu'r ffaith fy mod yn benderfynol y dylwn ychwanegu gwerth drwy gynnig sylwadau i lywio'r broses o wneud penderfyniadau, yn ogystal â gwneud gwaith ôl-adolygu priodol. Mae hefyd yn adlewyrchu fy mhenderfynoldeb i fod yn gymesur yn y gwaith a wnawn. Mae cyrff cyhoeddus yn wynebu pwysau o sawl cyfeiriad o ran eu hamser a'u hadnoddau. Mae gwaith archwilio cyhoeddus annibynnol sy'n dangos y sefyllfa fel y mae yn bwysig i lywodraeth ddemocrataidd iach, ond rhaid sicrhau bob amser bod gofynion y gwaith hwn yn gymesur â'r buddiannau i bobl Cymru. Y nod i mi o hyd fydd targedu ein gwaith lle mae'n cael yr effaith fwyaf a chwilio am ffyrdd newydd o gael sicrwydd cadarn o ffynonellau eraill sy'n bodoli eisoes a ffynonellau ategol.

Wrth i ni droi at ffocws ein gwaith ar gyfer y blynyddoedd i ddod, mae fy nghynlluniau ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru yn seiliedig ar fy nadansoddiad o'r risgiau a'r cyfleoedd allweddol sy'n wynebu cyrff cyhoeddus. Byddaf hefyd yn parhau i addasu ein rhaglen i adlewyrchu risgiau a chyfleoedd sy'n newid. Yn ein holl weithgareddau, rwy'n benderfynol y bydd ein gwaith yn cyflawni fy rhwymedigaeth i roi gwybodaeth gadarn ac annibynnol i bobl Cymru am sut y caiff eu harian ei wario. Byddwn yn hyrwyddo llywodraethu da, disgyblaeth ariannol gref a gwelliant parhaus o ran ansawdd gwasanaethau hyd yn oed yn ystod y cyfnodau anodd hyn. A byddwn yn cymhwyso'r un safonau manwl i'n gwaith ein hunain.



Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
31 Awst 2011

# Cynnwys


**9** Amdanom ni

**13** Ein gwaith eleni

**35** Ffocws ein gwaith yn y dyfodol

**39** Ein sefydliad

**49** Crynodeb ariannol

**55** Datganiadau o gyfrifon

- **66** Tystysgrif Archwilydd Cyffredinol yr Alban i Gynulliad Cenedlaethol Cymru
- **93** Adroddiad Archwilydd Cyffredinol yr Alban i Gynulliad Cenedlaethol Cymru



# Amdanom ni





# Gwneud i arian cyhoeddus gyfrif




Yr Archwilydd Cyffredinol a'r archwilwyr a benodir ganddo mewn llywodraeth leol yw archwilwyr allanol statudol y rhan fwyaf o sector cyhoeddus Cymru. Maent yn gyfrifol am gynnal archwiliadau blynyddol o'r rhan fwyaf o'r arian cyhoeddus a gaiff ei wario yng Nghymru, gan gynnwys y £14 biliwn a ddyfernir i Gymru'n flynyddol gan Senedd San Steffan. Mae Llywodraeth Cymru'n trosglwyddo elfennau o'r arian hwn i'r GIG yng Nghymru (dros £5 biliwn) ac i lywodraeth leol (bron £4 biliwn).

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a'i staff yn gweithio o dan adain Swyddfa Archwilio Cymru, a sefydlwyd ym mis Ebrill 2005. Yr Archwilydd Cyffredinol yw Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru ac mae ganddo gyfrifoldeb personol am drefnu, rheoli a staffio'r Swyddfa yn gyffredinol yn ogystal â'i gweithdrefnau mewn perthynas â materion ariannol a materion eraill.

Caiff tua dwy ran o dair o'n gwaith archwilio blynyddol ei gyflawni gan staff Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn rhoi gweddill ein gwaith ar gontract i gwmnïau cyfrifyddu yn y sector preifat (sef Grant Thornton UK LLP, KPMG Europe LLP, PricewaterhouseCoopers LLP, UHY Hacker Young, BDO Stoy Hayward a Mazars ar hyn o bryd).

## Beth rydym yn ei wneud

Nod gwaith archwilio allanol yw dwyn darparwyr gwasanaethau cyhoeddus i gyfrif, rhoi gwybodaeth am sut y maent yn gweithio a'u helpu i wella. Wrth gyflawni ein gwaith, rydym yn ceisio ateb tri phrif gwestiwn:

- Sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn perfformio, yn ariannol ac yn weithredol?
- Pa ffactorau sy'n dylanwadu ar y perfformiad hwnnw?
- Beth y gall darparwyr gwasanaethau ei wneud i wella?

Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cyhoeddi Cod Ymarfer, sy'n rhagnodi'r ffordd y dylai archwilwyr cyrff llywodraeth leol gyflawni eu swyddogaethau, ac yn ymgorffori arfer proffesiynol gorau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi ehangu a mabwysiadu'r Cod hwn o'i wirfodd fel ei fod yn berthnasol i'w waith archwilio ym maes iechyd a llywodraeth ganolog hefyd.

Ein prif amcan yw helpu i wneud y gorau o arian cyhoeddus, hynny yw, 'gwneud i arian cyhoeddus gyfrif'. Mae ein gwaith yn seiliedig ar bedair egwyddor, sef:

- canolbwyntio ar y cyhoedd;
- bod yn annibynnol;
- bod yn gymesur (gwneud y gwaith archwilio sydd ei angen yn unig);
- bod yn atebol.

## Y sawl rydym yn gweithio â hwy

Ein rôl yw darparu sicrwydd annibynnol bod arian cyhoeddus yn cael ei wario er budd pobl. Rydym yn gweithio gyda'r canlynol:

- Pobl Cymru
- Y Cynulliad Cenedlaethol, yn bennaf drwy ei Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
- Llywodraeth Cymru
- Darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a'r cyrff sy'n eu cynrychioli



# Ein gwaith eleni



# Archwilio ariannol

**Bob blwyddyn, rydym yn cynnal rhaglen eang ac amrywiol o waith archwilio allanol, sy'n cynnwys archwiliadau o gyfrifon, archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian, asesiadau llywodraeth leol, ardystio hawliadau grant, ymarferion gwrth-dwyll a rhoi caniatâd i Lywodraeth Cymru ddefnyddio arian.**


**Yn yr adran hon, amlinellwn y gwaith archwilio a wnaed gennym y llynedd a thynnwn sylw at rywfaint o'r effaith a gafodd.**

Yn ein gwaith archwilio ariannol rydym yn canolbwyntio ar archwilio cyfrifon a rhoi sicrwydd i'r cyhoedd bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod. Rydym yn archwilio cyfrifon a chofnodion eraill yn drylwyr ac yn rhoi 'barn' ar gywirdeb y cyfrifon. Yn 2010-11, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol a'i archwilwyr penodedig adroddiadau ar gyfrifon tua 840 o gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Yn eu plith roedd Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi, ymddiriedolaethau'r GIG a byrddau iechyd lleol, cynghorau, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau parciau cenedlaethol, awdurdodau ac ymddiriedolaethau heddlu a phrawf, cronfeydd pensiwn a chynghorau cymuned.

Mae adroddiadau archwilio ariannol yn cynnwys barn ffurfiol ar y canlynol:

- a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o incwm a gwariant a materion ariannol y corff, neu'n eu cyflwyno'n deg;
- a yw'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi'n gywir yn unol â deddfwriaeth, cyfarwyddiadau a safonau cyfrifyddu perthnasol;
- rheoleidd-dra'r trafodion, mewn cyrff lle bo hyn yn ofynnol.

**Arddangosyn 1** **Gwelliannau yn amseroldeb ein hadroddiadau ariannol ar gyfrifon Llywodraeth Cymru**




Caiff gwaith yr archwilydd ariannol yr effaith gyhoeddus amlycaf pan fo pethau'n mynd o chwith, gan beri iddo roi 'barn amodol' ar y cyfrifon. Mae digwyddiadau o'r fath yn anghyffredin. Cymerir camau i osgoi materion anodd a dadleuol drwy sicrhau bod rheolwyr ac archwilwyr yn ymgysylltu â'i gilydd ar gam cynnar - sy'n golygu bod yr effaith a gawn yn llai amlwg ond nid yn llai sylweddol.

Yn 2010-11, ni fu angen i ni roi barn archwilio amodol i adlewyrchu unrhyw arfer cyfrifyddu anghywir gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Fodd bynnag, awgrymodd archwilwyr yn aml y dylid diwygio cyfrifon drafft cyrff, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cyflwyno'n gywir, a gwnaethant lawer o argymhellion ar gyfer gwella i'r rhai a oedd yn gyfrifol am reoli a goruchwylio'r cyrff hynny. Eleni rydym hefyd wedi gwneud rhai argymhellion statudol ac wedi ymateb yn uniongyrchol i gwestiynau etholwyr a gwybodaeth arall a gyflwynwyd i'r archwilydd.

Mae gofynion cyfrifyddu a datgelu newydd y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol a'r ffaith bod fersiwn cliriach o'r Safonau Archwilio Rhyngwladol wedi'i gyflwyno yn parhau i ychwanegu at bwysau gwaith archwilwyr. Rydym yn parhau i liniaru'r effaith ar gyrff a archwilir drwy weithio'n fwy effeithlon, yn hytrach na chodi ein ffioedd.

Er mwyn gwella rheolaeth ariannol yn y sector cyhoeddus, mae angen cyhoeddi adroddiadau ar ganlyniadau ariannol cyn gynted â phosibl yn ystod y flwyddyn ac ar ôl diwedd y flwyddyn. Mae hyn yn helpu cyrff cyhoeddus i weithredu'n gyflym i wella'u systemau rheoli adnoddau, gwneud penderfyniadau a rheoli risg. Dengys Arddangosyn 1 sut rydym wedi sicrhau adroddiadau ariannol mwy amserol ar gyfrifon Llywodraeth Cymru ac wedi cynnal y duedd honno dros y pum mlynedd diwethaf.

# Archwilio perfformiad

## Adroddiadau cenedlaethol

Yn ystod 2010-11, gwnaethom gyhoeddi 12 adroddiad cenedlaethol ar werth am arian mewn meysydd allweddol o wariant cyhoeddus, a hynny'n aml o safbwynt 'system-gyfan' neu o safbwynt 'trawsbynciol', lle caiff gwariant cyhoeddus ei archwilio ni waeth pwy sy'n darparu'r gwasanaethau. Fel rhan o'r gwaith hwn archwiliwyd gwasanaethau ar draws y ffin rhwng Cymru a Lloegr, lle bo hynny'n briodol.

Disgrifir y gwaith a wnaethom ac effaith tri o'r adroddiadau hyn yn yr adran ganlynol.

Archwiliodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol ein hadroddiadau fel rhan o'i waith i sicrhau bod trefniadau priodol a thrylwyr ar waith i graffu ar wariant Llywodraeth Cymru. Cynhaliodd y pwyllgor ymchwiliadau penodol i faterion o ddiddordeb neu bryder a ddeilliodd o'n hadroddiadau a lluniodd adroddiadau ac argymhellion ar ei ganfyddiadau.














# Prosiectau Trafnidiaeth Mawr

Tynnodd yr adroddiad hwn sylw at gost gynyddol prosiectau trafnidiaeth mawr diweddar yng Nghymru. Yn benodol, cyfeiriodd yr adroddiad at gost derfynol 18 o brosiectau a gwblhawyd rhwng 2004 a 2010, sef £592 miliwn, o gymharu ag amcangyfrifon blaenorol o £366 miliwn. Tynnodd sylw hefyd at gost sylweddol rhai o'r prosiectau sydd ar y gweill ar gyfer gweddill y degawd hwn, megis Cynllun Gwella A465 Blaenau'r Cymoedd.

Ystyriodd yr adroddiad weithdrefnau Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli prosiectau o dan ei rheolaeth uniongyrchol, yn benodol y prosiectau hynny ar y *Flaenraglen Cefnffyrdd*. Ystyriodd hefyd y ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi mynd ati ers 2001-02 i oruchwylio'r broses o gyflawni prosiectau mawr a reolir gan awdurdodau lleol, sydd wedi cael cymorth drwy ei Grant Trafnidiaeth. Gwnaeth yr adroddiad ddefnydd helaeth o astudiaethau achos i dynnu sylw at y problemau cyffredin sy'n codi wrth gyflawni prosiectau, gan gynnwys mesurau ychwanegol i liniaru effeithiau amgylcheddol, gwaith annisgwyl a chwyddiant cost uwch na'r disgwyl.

Cafodd yr adroddiad gryn sylw yn y cyfryngau a chroeso cynnes gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol.

**Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig a llafar i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, dywedodd Cyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro Llywodraeth Cymru ar y pryd ar gyfer yr Economi a Thrafnidiaeth fod yr adroddiad yn un 'cynhwysfawr' ac 'y gallwn ddysgu gwersi ohono mewn perthynas â gwerth cannoedd o filiynau o bunnoedd o wariant sector cyhoeddus'.**



# Buddsoddi Cyfalaf mewn Ysgolion

Er bod gwelliannau wedi cael eu gwneud i'r ystad ysgolion, canfu'r astudiaeth hon fod cryn dipyn o waith i'w wneud o hyd cyn y byddai pob ysgol yng Nghymru yn addas at y diben. Gwnaeth yr adroddiad argymhellion i Lywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ac awdurdodau lleol. Dangosodd sut y gallent gael gwerth gwell am arian o'r cyfalaf cynyddol gyfyngedig sydd ar gael i'w fuddsoddi mewn adeiladau ysgolion.

Dywedodd ein hadroddiad nad oedd arian Llywodraeth Cymru i wella adeiladau ysgolion wedi'i dargedu'n ddigon da cyn 2009, ac nad oedd digon o wybodaeth i bennu blaenoriaethau na digon o waith yn cael ei wneud i werthuso buddiannau buddsoddiadau cynharach. Nid oedd diffiniad clir ychwaith o'r cysyniad 'addas at y diben' felly roedd awdurdodau lleol yn ansicr faint roedd angen iddynt ei wario. Ers 2009, roedd gwaith ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a CLlLC wedi dechrau atgyfnerthu'r broses o gynllunio a rheoli buddsoddiadau cyfalaf mewn ysgolion.

Cyflwynwyd yr adroddiad gennym i'r Cynulliad Cenedlaethol, a chynhaliodd ei Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ymchwiliad gan dderbyn tystiolaeth gan uwch swyddogion o Lywodraeth Cymru. Cyhoeddwyd adroddiad arno ym mis Rhagfyr 2010 a oedd yn cynnwys rhagor o argymhellion. Byddwn yn monitro ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion hyn.





# Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai


Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail archwiliadau lleol ymhob un o'r saith bwrdd iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre. Ystyriwyd pob agwedd ar arlwyo a maeth i gleifion, o drefniadau cynllunio a choginio prydau bwyd, i weini'r bwyd i gleifion ar wardiau, mewn sampl o wardiau ymhob un o brif ysbytai Cymru. Gwnaethom hefyd gasglu barn tua 700 o gleifion i lywio ein canfyddiadau. Gwnaethom ganfod fod ysbytai Cymru wedi gwneud rhai gwelliannau pwysig i'w gwasanaethau arlwyo ers 2002 a bod lefelau boddhad cleifion o ran bwyd mewn ysbytai yn parhau i fod yn uchel ar y cyfan.

Fodd bynnag, gwnaethom ganfod problemau mewn perthynas â'r ffordd y caiff anghenion deietegol cleifion eu nodi a'r gwaith a wneir i asesu lefelau maeth bwydlenni. Gwnaethom ganfod hefyd nad yw rhai cleifion y mae angen help arnynt i fwyta yn ei gael bob amser. Nododd ein hadroddiad fod angen ffocws cliriach ar gostau gwasanaethau a chamau i leihau'r lefelau annerbyniol o uchel o wastraff bwyd ar rai wardiau.

Rydym wedi tynnu sylw at yr hyn y mae angen i Lywodraeth Cymru a chyrff y GIG ei wneud ac rydym yn eu helpu i ddatblygu deunyddiau i roi gwybod i gleifion am yr hyn y gallant ei ddisgwyl yn rhesymol gan wasanaethau arlwyo a maeth i gleifion mewn ysbytai. Mae ein rhestr wirio ar gyfer aelodau bwrdd y GIG yn eu helpu i gryfhau prosesau sicrwydd a monitro a byddwn yn helpu i ledaenu arfer da drwy gynnal digwyddiad rhannu dysgu ar gyfer grwpiau allweddol o staff o bob rhan o'r GIG yn ddiweddarach eleni.







# Asesiadau gwella llywodraeth leol


Daeth Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i rym i bob pwrpas ym mis Ebrill 2010. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal 'asesiad gwella' ymhob cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol, awdurdod tân ac achub ac awdurdod parc cenedlaethol bob blwyddyn. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys archwilio p'un a yw'r awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant a llunio adroddiadau ar berfformiad.


Mae ein dull newydd o archwilio perfformiad yn rhoi mwy o ffocws ar asesu sut mae awdurdodau'n cynllunio ac yn gweithio i wella canlyniadau ar gyfer y cyhoedd. Rydym wedi cyflwyno fframwaith asesu mwy cyson sy'n rhoi dealltwriaeth well o gryfderau a gwendidau cymharol awdurdodau ac sy'n hwyluso'r broses o lunio cymariaethau lle bo hynny'n briodol.


Yn ystod y flwyddyn gyntaf, roedd angen i'r Archwilydd Cyffredinol lunio darlun cyffredinol o'r agweddau allweddol sy'n cefnogi gwelliant mewn awdurdodau. Aethom ati i gynnal asesiadau corfforaethol rhagarweiniol gan ganolbwyntio ar gynllun gwella pob awdurdod, ei amcanion gwella a'i drefniadau ehangach i'w helpu i wella. Cyhoeddwyd 28 o adroddiadau gennym rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2010 a oedd yn darparu gwybodaeth am gryfderau neu wendidau'r awdurdodau mewn perthynas â'u systemau llywodraethu a rheoli.


**Ar sail ein hasesiadau corfforaethol, gwnaethom lunio papur briffio a oedd yn dangos sut roedd cynghorau ledled Cymru yn ymateb i'r heriau ariannol sy'n eu hwynebu. Roedd y papur briffio'n cynnwys 13 o astudiaethau achos byr i dynnu sylw at enghreifftiau o arfer da a allai fod o ddiddordeb i awdurdodau eraill.**
**Roedd negeseuon allweddol papur briffio Cymru gyfan fel a ganlyn:**

- **mae'r rhan fwyaf o gynghorau'n gwneud cynnydd rhesymol o ran cynllunio'n ariannol ar gyfer gostyngiadau yn y gyllideb ond mae gan leiafrif gynnydd sylweddol i'w wneud;**
- **nid yw gwaith cynllunio'r gweithlu wedi'i ddatblygu'n ddigonol ac mae'n risg fawr wrth i gynghorau leihau niferoedd staff heb ddull gweithredu strategol â thystiolaeth dda yn sail iddo;**
- **mae mwy o gydweithio'n digwydd mewn ymateb i'r heriau ariannol, ond ni cheir tystiolaeth ddigonol am gostau a'r effaith ar ddinasyddion;**
- **yn gyffredinol nid oes gan y cynghorau'r wybodaeth am berfformiad sydd ei hangen arnynt i'w helpu i ddeall a rheoli effaith y toriadau ariannol ar ddinasyddion.**








Yn ystod y flwyddyn gyntaf, gwnaethom hefyd rywfaint o waith asesu perfformiad ymhob awdurdod er mwyn pennu llinell sylfaen i'n helpu i asesu gwelliant yn y dyfodol. Cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol 28 o adroddiadau gwella blynyddol, a ysgrifennwyd ar gyfer y cyhoedd, a oedd yn cynnwys crynodebau o'r holl waith perthnasol gan arolygiaethau a rheoleiddwyr eraill.

Rydym yn parhau i wneud gwaith asesu corfforaethol a gwaith asesu perfformiad drwy gydol y flwyddyn gan roi adborth ar ein canfyddiadau i bob awdurdod wrth i'r gwaith gael ei gwblhau.

Yn gynnar yn 2011, ymgynghorodd yr Archwilydd Cyffredinol â llywodraeth leol ar gynigion i newid i raglen waith mwy cymesur sy'n seiliedig ar risg. Caiff ein gwaith yn y dyfodol ei deilwra a'i gynllunio'n lleol o fewn fframwaith cyffredin, fel y gellir mynd i'r afael â phryderon, llenwi unrhyw fylchau mewn gwybodaeth ac edrych ar feysydd y mae'r awdurdodau am i ni eu hadolygu'n benodol. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn awyddus i annog cymheiriaid i gyfrannu mwy at ein hasesiadau. Ei nod yw y dylai gwaith hunanasesu a gwaith craffu allanol cadarn gyfrannu at y darlun cyffredinol a'i ategu, a bydd yn trafod ffyrdd o gyflawni hyn gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac eraill.





# Arolygiad Arbennig o Lywodraethu Corfforaethol, Cyngor Sir Ynys Môn

Canfu ein harolygiad llywodraethu corfforaethol yng Nghyngor Sir Ynys Môn yn 2009 fod hanes hir o ddiffyg rheoli priodol yn y Cyngor a oedd yn golygu nad oedd mewn sefyllfa dda i ymateb i heriau yn y dyfodol. Penododd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chyfiawnder Cymdeithasol Reolwr Gyfarwyddwr Dros Dro i arwain staff y Cyngor a Bwrdd Adfer i oruchwylio camau'r Cyngor i roi argymhellion adroddiad yr arolygiad ar waith.

Rhwng mis Hydref 2009 a diwedd 2010, gwnaeth y Cyngor rywfaint o gynnydd. Fodd bynnag, ar ôl mwy o ansefydlogrwydd gwleidyddol, ar 16 Chwefror 2011, gofynnodd y Gweinidog am i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal arolygiad arall. Cynhaliwyd yr arolygiad gan dîm profiadol o Swyddfa Archwilio Cymru a oedd yn cynnwys yr Archwilydd Cyffredinol ei hun ac asesydd cymheiriad a chyhoeddwyd adroddiad y tîm ar 16 Mawrth 2011, union fis ar ôl cais y Gweinidog. Daeth yr adroddiad i'r casgliad nad oedd ymyrraeth Gweinidogion Cymru yn 2009 wedi llwyddo i sicrhau bod Cyngor Sir Ynys Môn yn adfer mewn modd cynaliadwy o'i hanes hir o drefniadau llywodraethu gwan, a bod angen ymyrraeth gadarnach.

Derbyniodd Gweinidogion Cymru ein hargymhellion a phenodwyd pum comisiynydd y trosglwyddwyd swyddogaethau gweithredol y Cyngor iddynt. Roedd y rhain i gyd yn eu swyddi yn Ynys Môn erbyn 4 Ebrill 2011. Mae'n rhy gynnar i ddweud p'un a fydd yr ymyrraeth ychwanegol hon yn arwain at newid cynaliadwy sy'n galluogi'r Cyngor i weithredu'n effeithiol o dan arweiniad ei aelodau etholedig, ond rydym yn parhau i fonitro cynnydd a chyhoeddi adroddiadau arno.




# Archwilio awdurdodau'r heddlu

Dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi datblygu system graffu symlach ar gyfer awdurdodau'r heddlu drwy gydweithio ag Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (ACEM) i gydgysylltu ein gwaith yn fwy effeithiol.

Ym mis Gorffennaf 2010, cyhoeddodd y Comisiwn Archwilio, ACEM a Swyddfa Archwilio Cymru adroddiad ar y cyd, sef *Cynnal Gwerth am Arian yng Ngwasanaeth yr Heddlu*, a oedd yn cwmpasu Cymru a Lloegr. Yn dilyn hynny gwnaethom lunio adroddiad yn cwmpasu Cymru gyfan a dynnodd sylw at feysydd lle gallai awdurdodau'r heddlu yng Nghymru wneud arbedion megis defnyddio'r gweithlu yn well, newid cymysgedd y gweithlu a lleihau costau rheoli. Gwnaethom hefyd helpu i lunio amrywiaeth o adnoddau hunanasesu gyda'r nod o helpu gwasanaethau'r heddlu i wella gwerth am arian heb gael effaith andwyol ar ddiogelwch y cyhoedd.

Rydym yn parhau i weithio gydag ACEM ac yn ceisio rhoi sicrwydd bod y trefniadau pontio ar gyfer strwythurau atebolrwydd newydd yr heddlu yn mynd rhagddynt yn ddidrafferth.




# Gwaith iechyd lleol

Roedd y gwaith ar *Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai* y cyfeiriwyd ato'n gynharach yn rhan o raglen lawn o waith archwilio perfformiad lleol mewn byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru.

Yn ystod 2010, cynhaliodd archwilwyr 'asesiadau strwythuredig' o drefniadau cyrff y GIG i sicrhau y caiff adnoddau eu defnyddio mewn modd effeithlon, effeithiol a darbodus. Ystyriwyd agweddau allweddol ar drefniadau llywodraethu a rheoli ariannol cyrff y GIG a gweithgareddau allweddol fel datblygu cynlluniau strategol, cynllunio'r gweithlu, gwaith partneriaeth ac ymgysylltu â defnyddwyr. Gwnaethom gydnabod y cynnydd da roedd y rhan fwyaf o gyrff y GIG wedi'i wneud i ddatblygu eu trefniadau llywodraethu corfforaethol ar ôl i'r GIG gael ei ad-drefnu. Gwnaethom dynnu sylw hefyd at feysydd lle roedd angen gwneud mwy o waith, a'r mwyaf nodedig o blith y rhain oedd datblygu cynlluniau gwasanaeth, gweithlu a chyllid cadarn fel sail i'w cynlluniau strategol pum mlynedd cyffredinol. Bydd ein gwaith yn 2011 yn adolygu'r cynnydd sy'n cael ei wneud, gan gysylltu'n glir â hunanasesiadau cyrff y GIG o drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd fel rhan o'r safonau newydd ar gyfer gofal iechyd.

Ystyriodd archwiliad perfformiad mawr arall effaith y diwygiadau a wnaed yn 2003 i gontractau meddygon ymgynghorol yng Nghymru. Aethom ati i adolygu'r trefniadau cynllunio swyddi ar gyfer meddygon ymgynghorol ac yn y rhan fwyaf o sefydliadau'r GIG llwyddwyd i dynnu sylw at gyfleoedd mawr i wella. Byddwn yn monitro cynnydd ac yn ddiweddarach yn 2011 byddwn yn ystyried dulliau cyrff y GIG o ddatblygu modelau arwain ac ymgysylltu clinigol cadarn.

Gwnaethom ystyried hefyd i ba raddau roedd cyrff y GIG yn defnyddio'u capasiti theatrau llawdriniaeth yn effeithiol a ph'un a oeddent yn gwneud cynnydd o ran gwella cyfraddau llawdriniaethau dydd. Gwnaed y gwaith hwn mewn partneriaeth â'r Comisiwn Archwilio ac felly bu modd i ni gymharu perfformiad yng Nghymru ag ymddiriedolaethau'r GIG yn Lloegr.

Ymhob un o gyrff y GIG, ystyriodd archwilwyr hefyd risgiau a oedd yn benodol i'r cyrff o dan sylw. Enghraifft dda yw ein hadolygiad o'r trefniadau ar gyfer rheoli presgripsiynu ym Mwrdd Iechyd Hywel Dda. Tynnodd y gwaith hwn sylw at yr angen i wneud mwy i sicrhau bod arferion presgripsiynu'n fwy diogel a chosteffeithiol ar ryngwyneb gofal sylfaenol a gofal eilaidd. Yn ogystal â rhoi ffocws clir i'r Bwrdd Iechyd ar gyfer gwella, rydym wedi rhannu ein canfyddiadau â bwrdd y rhaglen rheoli meddyginiaethau genedlaethol fel y gall negeseuon yr archwiliad gael eu rhannu'n ehangach.

# Grantiau a chymeradwyaeth

## Ardystio hawliadau a ffurflenni grant

Mae grantiau yn ffynhonnell bwysig o arian yng Nghymru, yn enwedig i awdurdodau lleol. Ers 2005, mae gwahaniaethau sylweddol, sy'n tyfu'n barhaus, wedi bod rhwng polisi grantiau Cymru a Lloegr; yng Nghymru, gwneir llawer mwy o ddefnydd o grantiau fel dull ariannu.

Mae telerau ac amodau penodol ynghlwm wrth bob grant er mwyn sicrhau y caiff yr arian ei wario ar y diben bwriadedig. Os na chydymffurfir â'r amodau, efallai y bydd yn rhaid ad-dalu'r grant ac mae risg o golli cyllid yn y dyfodol.

Os caiff gais i wneud hynny, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol wneud trefniadau i ardystio hawliadau a ffurflenni ar gyfer grantiau a dalwyd neu gymorthdaliadau a wnaed i gyrff gwasanaethau cyhoeddus. Yn 2010-11, ardystiwyd 38 o gynlluniau llywodraeth leol gennym, a oedd werth rhyw £2.8 biliwn ac yn cynnwys tua 800 o hawliadau unigol.

Drwy waith ein harchwilwyr, rhoddwyd sicrwydd annibynnol i'r cyrff dyfarnu a'r awdurdodau a dderbyniodd y grantiau bod yr arian grant a ddarparwyd wedi cael ei ddefnyddio'n briodol. Gwnaethom 'amodi' neu addasu (o fwy na £10,000) 40 y cant o'r hawliadau hyn yn 2010-11, a hynny'n gyffredinol am nad oedd digon o dystiolaeth gadarn ar gael i ategu'r gwariant a hawliwyd neu am fod yr hawliadau wedi'u paratoi'n anghywir.

Yn achos Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi, gwnaethom hefyd ardystio hawliadau am arian o'r cronfeydd strwythurol Ewropeaidd, oedd werth cyfanswm o tua £310 miliwn ar gyfer y flwyddyn. Wrth i wariant gyflymu yn ystod y blynyddoedd sy'n weddill o'r rhaglen arian Ewropeaidd gyfredol, bydd nifer yr hawliadau a'r gwerth a gaiff eu hardystio yn cynyddu'n sylweddol.

Rydym yn ceisio cynorthwyo'r cyrff a archwilir gennym drwy eu helpu i ddeall y risgiau sy'n gysylltiedig â grantiau ac sydd yn aml yn gymhleth iawn, megis cydymffurfio â Rheoliadau Cymorth Gwladwriaethol yr UE, a gwella'r ffordd y maent yn rheoli ac yn gweinyddu'r arian a ddyfernir iddynt. Mae gennym gysylltiadau da â Thîm Canolfan Ragoriaeth newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli grantiau'n well ac rydym wedi cynnal gweithdai ledled Cymru ar gyfer swyddogion prosiectau grant. Rydym hefyd wedi datblygu modiwl *Rheoli Grantiau* fel rhan o'r Gyfnewidfa Arfer Da ar ein gwefan: mae hwn yn ystyried cylch oes cyfan grantiau ac yn dwyn ynghyd safbwyntiau amrywiol arianwyr, y rhai sy'n gwneud cynigion a'r rhai sy'n derbyn arian a'r rhai sy'n eu harchwilio.

Yn gynnar yn 2011, ymgynghorodd yr Archwilydd Cyffredinol ar ei strategaeth newydd ar gyfer trefniadau mwy costeffeithiol i ardystio gwariant a ariennir gan grantiau drwy waith archwilio allanol ledled Cymru.

# Cymeradwyo ceisiadau i ddefnyddio arian o Gronfa Gyfunol Cymru

Cronfa Gyfunol Cymru yw'r prif gyfrwng ar gyfer derbyn a dosbarthu arian ar gyfer sector cyhoeddus Cymru. Darperir y rhan fwyaf o'r arian a delir i'r gronfa gan Lywodraeth y DU, fel y caiff ei hawdurdodi gan Senedd San Steffan. Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gymeradwyo pob taliad a wneir o'r gronfa, sy'n golygu gwirio bod y taliadau arfaethedig yn cydymffurfio â deddfwriaeth a, lle y bo'n briodol, awdurdodiad cynnig cyllidebol y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r symiau arian dan sylw yn sylweddol – dros £1 biliwn y mis yn ystod 2010-11– ac mae'n rhaid prosesu pob cais i ddefnyddio arian o'r Gronfa yn gyflym ac yn gywir. Rydym bob amser yn prosesu ceisiadau'r Gronfa ar yr un diwrnod ag y maent yn dod i law ac yn delio ag unrhyw anghysondebau mewn ceisiadau fel mater o flaenoriaeth.



# Ymarferion gwrth-dwyll ac ymarferion paru data eraill

## Y Fenter Twyll Genedlaethol

Ym mis Mai 2010, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ganfyddiadau Menter Twyll Genedlaethol 2008-09. Bob dwy flynedd, caiff data ei baru ar draws sefydliadau a systemau er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i ganfod hawliadau a thrafodion a allai fod yn dwyllodrus neu'n wallus. Cymerodd yr holl awdurdodau unedol, awdurdodau'r heddlu, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau prawf a chyrff y GIG yng Nghymru ran yn y Fenter yn 2008-09, a gwirfoddolodd Llywodraeth Cymru, Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru ei hun i gymryd rhan yn y Fenter hefyd.

Canfu adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol fod y Fenter wedi galluogi cyrff cyhoeddus yng Nghymru i ganfod ac atal twyll a gwallau gwerth bron £4.5 miliwn. Ers cyhoeddi'r adroddiad, mae'r ffigur hwn wedi codi i £7 miliwn. Ymhlith yr achosion o dwyll a nodwyd roedd hawliadau ffug am fudd-dal tai, pensiynau sector cyhoeddus a disgowntiau treth gyngor. Yn ogystal, arweiniodd yr ymarfer at ganslo 1,390 o drwyddedau parcio bathodyn glas a 4,296 o drwyddedau teithio rhatach lle nad oedd y derbynwyr yn gymwys i'w cael mwyach. Yn sgîl yr ymarfer cafodd 54 o unigolion eu herlyn am droseddau twyll.

Yn ddiweddar cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ganlyniadau paru data Menter Twyll Genedlaethol 2010-11 i gyrff sector cyhoeddus Cymru sy'n rhan ohoni, ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i adolygu'r canlyniadau hyn ac ymchwilio iddynt.

## Y Fenter Cofrestriadau Dyblyg Genedlaethol

Yn 2010, cynhaliodd yr Archwilydd Cyffredinol y Fenter Cofrestriadau Dyblyg Genedlaethol ledled Cymru. Nod yr ymarfer hwn oedd canfod cleifion a oedd wedi'u cofrestru â mwy nag un practis meddyg teulu, pobl a oedd wedi marw ond a oedd yn dal i fod ar gofrestrau practisau'r GIG a cheiswyr lloches a symudwyd o'r wlad ond a oedd yn dal i fod ar gofrestrau practisau'r GIG. Mae'r GIG yn rhoi arian i bractisau meddygon teulu ar sail nifer y cleifion cofrestredig felly gall dileu cofrestriadau amhriodol arwain at arbedion sylweddol. Mae GIG Cymru dal wrthi'n adolygu achosion lle cafodd data ei baru ac yn ymchwilio iddynt.



# Gweithio gydag eraill i rannu dysgu

## Y Rhaglen Effeithlonrwydd ac Arloesedd

Yn dilyn ein hadroddiad arwyddocaol, sef *Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus*, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2010, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi bod yn ymwneud â'r *Rhaglen Effeithlonrwydd ac Arloesedd* sydd ar waith drwy'r sector cyhoeddus i gyd. Yn ystod 2010-11, mynychodd yr Archwilydd Cyffredinol gyfarfodydd y Bwrdd Effeithlonrwydd ac Arloesedd, o dan gadeiryddiaeth y Gweinidog Busnes a'r Gyllideb, er mwyn rhoi gwybodaeth i gyfrannu at drafodaethau amser real ond heb, wrth gwrs, gyfrannu at unrhyw benderfyniadau. Yn ogystal, roedd gennym gynrychiolwyr staff yn cyflawni rolau tebyg ar bob un o'r saith bwrdd a oedd yn edrych ar feysydd penodol er mwyn gwella gwasanaethau a lleihau costau.

Wrth i'r rhaglen ddatblygu, rydym wedi rhoi gwybodaeth i'r rhai sy'n ei harwain am osgoi'r peryglon rydym ni ac asiantaethau archwilio eraill wedi'u nodi sydd ynghlwm wrth raglenni arbedion effeithlonrwydd mawr, ac rydym hefyd wedi helpu i ddatblygu fframwaith mesur cadarnach ar gyfer y rhaglen.

Mae'r cyfraniad amserol hwn, sy'n seiliedig ar ein tystiolaeth a phrofiad archwilio, wedi helpu i gryfhau'r rhaglen a'r effaith bosibl y gall ei chael ar alluogi gwasanaethau cyhoeddus i ymdopi gyda llai.

Rydym wedi teilwra rhywfaint o'n gwaith i ymateb i'r materion sy'n deillio o'r rhaglen. Er enghraifft, rydym wedi addasu ffocws ein Cyfnewidfa Arfer Da yn unol â'r prosiectau ar reoli absenoldeb oherwydd salwch ymhlith staff a gwella effeithlonrwydd ynni adeiladau cyhoeddus.

Rydym wrthi'n cynnal mwy o ymchwil i'r materion y tynnwyd sylw atynt yn ein hadroddiad *Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus* a bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cyhoeddi adroddiad dilynol yn ddiweddarach yn 2011.



# Diwrnod Datblygu Cadeiryddion Pwyllgorau Archwilio'r GIG

Ym mis Medi 2010, cynhaliodd yr Archwilydd Cyffredinol y diwrnod datblygu cyntaf ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgorau Archwilio cyrff y GIG yng Nghymru. Canolbwyntiodd y digwyddiad ar wella effeithiolrwydd y pwyllgorau pwysig hyn a'u cyfraniad i lywodraethu da. Gofynnwyd i'r rheini a oedd yn bresennol ystyried pa mor dda roedd eu pwyllgorau eu hunain yn perfformio ac astudio problemau a heriau cyffredin. Cafodd y diwrnod ei hwyluso gan ein staff, a ddefnyddiodd astudiaethau achos i ysgogi trafodaeth ac annog hunanfyfyrio.

Cafodd y digwyddiad adborth ardderchog gan bawb a gymerodd ran ac mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi ymrwymo i drefnu mwy o ddigwyddiadau.

**'Roedd y seminar cyfan yn ddefnyddiol iawn, roedd y siaradwyr yn wych ac wedi trafod popeth yn eu cyflwyniadau a rhoi awgrymiadau a syniadau am atebion - ardderchog.'**

**'Nid oedd y cyflwyniadau'n jargonllyd, ac roeddent yn cynnwys gwybodaeth a chanllawiau syml a hawdd i'w deall.'**

**Sylwadau gan rai a gymerodd ran yn y gynhadledd Fflyd Lwyd**



# Seminar Fflyd Lwyd

'Fflyd lwyd' yw'r term a ddefnyddir i gyfeirio at gerbydau preifat a ddefnyddir gan staff at ddibenion busnes. Bob blwyddyn, ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru, mae'r fflyd lwyd yn teithio dros 100 miliwn o filltiroedd ar gost o dros £50 miliwn, gan allyrru dros 20,000 o dunelli o $CO_2$.

Mae deddfwriaeth ddiweddar fel y Ddeddf Dynladdiad Corfforaethol yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr wneud mwy i sicrhau bod pob aelod o staff yn ddiogel i yrru a bod eu cerbydau yn addas ar gyfer y ffordd ac wedi'u hyswirio i'w defnyddio at ddibenion busnes.

Gwnaethom gynnal ein Seminar Fflyd Lwyd ym mis Hydref 2010, gan ddarparu gwybodaeth yn deillio o'n profiad helaeth o bob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru am ffyrdd ymarferol a phrofedig o leihau costau, gan sicrhau buddiannau o ran yr amgylchedd ac iechyd a diogelwch ar yr un pryd.

Tynnodd y seminar sylw at enghreifftiau o arfer da a chafwyd cyfle i drafod a rhannu'r hyn a ddysgwyd. Rhoddwyd syniadau ymarferol i'r rhai a oedd yn bresennol am sut i leihau costau ac allyriadau carbon a hefyd wella diogelwch staff.

The Good Practice Exchange
Y Gyfnewidfa Arfer Da


# Nodi a throsglwyddo arfer da


Un o'r ffyrdd y mae Swyddfa Archwilio Cymru yn hyrwyddo gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus yw drwy nodi a throsglwyddo arfer da. Mae ein Cyfnewidfa Arfer Da yn adnodd ar-lein sydd ar gael am ddim i bawb. Rydym hefyd yn darparu gweithgareddau wyneb yn wyneb wedi'u targedu, seminarau rhannu dysgu fel arfer, sy'n galluogi pobl o bob rhan o'r gwasanaethau cyhoeddus i gyfnewid gwybodaeth a dysgu'n gyflym.

Yn ystod 2010-11, canolbwyntiodd ein gwaith ar uwchraddio cynnwys y Gyfnewidfa Arfer Da yn bennaf, gan gynnwys ychwanegu astudiaethau achos o'n gwaith astudio. Yr astudiaethau achos yw adran fwyaf poblogaidd y Gyfnewidfa. Ategir ein gwaith arfer da gan ein cyfraniad i goodpracticewales.com, sef porth ar-lein sy'n gweithredu fel pwynt mynediad unigol i chwilio gwefannau'r aelod-sefydliadau. Yn eu plith mae'r Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Rheoli yng Ngwasanaeth Cyhoeddus Cymru a'r Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol. Fel un o'r aelodau sefydlu rydym wedi chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddatblygu'r wefan hon sy'n ennill ei phlwyf ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru fel cyfleuster rhannu gwybodaeth.

Yn ogystal lansiwyd tudalennau 'cyflwyno adroddiadau ariannol amserol' y Gyfnewidfa Arfer Da yn 2010-11 gan ganolbwyntio ar gefnogi gwelliannau ym maes rheoli adnoddau, gwneud penderfyniadau a rheoli risg yn ogystal â helpu cyrff cyhoeddus i ymateb i ddeddfwriaeth sy'n gosod terfynau amser cynharach ar gyfer adroddiadau ariannol.

# Cydweithio




Rydym yn ymrwymedig i weithio gydag asiantaethau archwilio cenedlaethol y DU ac adeiladu ar y cydweithredu sydd eisoes yn digwydd rhyngddynt, er mwyn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwaith archwilio cyhoeddus, rhoi ffocws strategol ar faterion sy'n berthnasol i'n gwaith a datblygu dulliau gweddol gyson o wneud gwaith archwilio cyhoeddus. Rydym yn gweithio gyda chydweithwyr yn Audit Scotland, Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon, y Comisiwn Archwilio a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar gydbrosiectau ac er mwyn rhannu gwybodaeth a dealltwriaeth. Er enghraifft, rydym yn gweithio gydag asiantaethau archwilio eraill y DU er mwyn adolygu gwaith archwilio ariannol ac adroddiadau archwilio perfformiad ein gilydd fel rhan o'n system sicrhau ansawdd.

Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda phrif gyrff arolygu a rheoleiddio Cymru, ac ar 25 Mawrth 2011, llofnododd yr Archwilydd Cyffredinol gytundeb strategol i ymestyn ein cydweithio.

Lansiodd y pedwar corff a lofnododd y cytundeb - Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, Estyn, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru - bapur ar y cyd hefyd ar arolygu, archwilio a rheoleiddio.

Mae'r papur, sef *Datblygu ein gwaith gyda'n gilydd mewn hinsawdd o newid*, yn amlinellu sut y mae'r pedwar sefydliad yn gwneud cynnydd o ran cydgysylltu eu gwaith a, lle y bo'n briodol, ei gyflawni ar y cyd.

Mae'r papur yn cydnabod cryfderau a buddiannau cydweithredu hyd yma ac yn nodi rhai datblygiadau diweddar. Yn eu plith mae penodi staff prosiect ar y cyd er mwyn helpu i ddatblygu cydweithio rhwng y pedwar sefydliad, ac atgyfnerthu prosesau rhannu gwybodaeth.

Mae'r cytundeb strategol yn dangos ymrwymiad yr holl gyrff arolygu, archwilio a rheoleiddio i ddatblygu'r trefniadau cydweithio sydd eisoes ar waith ymhellach a chydweithredu'n fwy effeithiol ac effeithlon yn y dyfodol. Mae'r cytundeb yn rhan o fframwaith o weithgareddau cydweithio sy'n cael ei ddatblygu gan y pedwar sefydliad. Nodau'r gwaith hwn yw helpu i gydgysylltu gweithgarwch adolygu allanol yn well a datblygu ymhellach y trefniadau presennol ar gyfer rhannu gwybodaeth.

# Gwaith rhyngwladol

O bryd i'w gilydd rydym yn cynrychioli Cymru yn rhyngwladol mewn perthynas â'n gwaith. Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru enw da am fod yn asiantaeth archwilio sector cyhoeddus llawn hygrededd sydd â sgiliau y gellir eu trosglwyddo i wledydd eraill.

Mae ein gwaith rhyngwladol hefyd yn rhoi cyfle i ni ddatblygu ein gwybodaeth am dechnegau cyfrifyddu ac archwilio a meithrin sgiliau sydd eu hangen arnom i gyflawni ein gwaith. Ond, rydym yn ymwybodol y dylai'r holl weithgareddau hynny gefnogi ein strategaeth fusnes, y dylent fod yn hunangyllidol ac na ddylent amharu ar ein gwaith archwilio craidd yng Nghymru.

Yn ystod y flwyddyn, ymwelodd cynrychiolwyr o nifer o gyrff sector cyhoeddus tramor â Swyddfa Archwilio Cymru er mwyn dysgu am drefniadau llywodraethu yng Nghymru a'n dulliau archwilio cyhoeddus a bu'n gyfle i ni ddysgu wrthynt hwy hefyd.

Caiff safonau cyfrifyddu ac archwilio eu trefnu ar sail fyd-eang erbyn hyn. Yn ystod 2010-11, gwnaethom ymateb i saith ymgynghoriad ar y safonau hynny, gan helpu i lywio datblygiad gwaith cyfrifyddu a gwaith archwilio cyhoeddus ar y llwyfan ehangach yn y dyfodol.

# Ymateb i faterion a ddygwyd i'n sylw

Gall gohebiaeth gan y cyhoedd, cynrychiolwyr etholedig ac eraill sy'n codi pryderon am fusnes cyhoeddus lywio ein rhaglen waith drwy nodi materion y dylid ymchwilio iddynt ymhellach. Ein polisi yw ymateb yn ddi-oed i bryder cyhoeddus mewn modd teg, gwrthrychol a phroffesiynol.

Daeth y Ddeddf Datgelu Er Lles y Cyhoedd (y Ddeddf) i rym yn 1998 i ddiogelu cyflogeion sydd am leisio pryder am rywbeth sy'n digwydd yn y gwaith mewn modd cydwybodol. O dan y Ddeddf, caiff yr Archwilydd Cyffredinol a'r archwilwyr a benodir ganddo ym maes llywodraeth leol eu cydnabod fel 'unigolion rhagnodedig' a all dderbyn datgeliadau gan unigolion a gyflogir gan gyrff a archwilir am weinyddu busnes cyhoeddus yn briodol, gwerth am arian, twyll a llygredd mewn perthynas â darparu gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn rhoi gwybod i'r Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol am unrhyw achos o drin elw troseddau (gwyngalchu arian) y daw ef neu'i staff ar ei draws yn ystod eu gwaith.

**Ym mis Mawrth 2010 gwnaethom gyhoeddi adroddiad archwilio ar Bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf Plas Madoc.**

**Roedd y bartneriaeth ym Mhlas Madoc yn gorff annibynnol a oedd yn derbyn grantiau gan Lywodraeth Cymru. Mynegodd trydydd parti bryder am systemau llywodraethu a gwarchod y bartneriaeth i Lywodraeth Cymru, ac yn dilyn hynny i'r Archwilydd Cyffredinol. Arweiniodd hyn at archwiliad ar y cyd gan yr Archwilydd Cyffredinol a thîm archwilio mewnol Llywodraeth Cymru.**

**Canfu'r archwiliad wendidau sylweddol mewn trefniadau llywodraethu yn ogystal â sawl achos lle cafodd contractau a gwasanaethau eu caffael oddi wrth ffrindiau a pherthnasau'r cydgysylltydd. Mae'r heddlu yn dal i ymchwilio i faterion y bartneriaeth ond mae un unigolyn eisoes wedi'i gyhuddo o ddwyn a thwyll a diswyddwyd y cydgysylltydd.**

**Gwnaed y datgeliad i'r Archwilydd Cyffredinol ar adeg pan oedd effeithiolrwydd y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf genedlaethol yn destun craffu. Roedd gwersi clir i'w dysgu o achos Plas Madoc ac ers hynny mae Llywodraeth Cymru wedi cwblhau rhaglen sylweddol o adolygiadau o drefniadau archwilio mewnol mewn prosiectau eraill ledled Cymru yn ogystal â gwella trefniadau monitro a chraffu ar gyfer partneriaethau.**

**Yn sgîl ein gwaith ar Blas Madoc, gofynnodd Llywodraeth Cymru am arbenigedd Swyddfa Archwilio Cymru i roi gwybodaeth a chanllawiau i bartneriaethau ledled Cymru er mwyn helpu i atal achosion o'r fath rhag digwydd yn y dyfodol. Felly gwnaethom gynllunio a darparu hyfforddiant llywodraethu corfforaethol i bartïon sy'n gysylltiedig â phartneriaethau o dan raglen Cymunedau yn Gyntaf Llywodraeth Cymru. Mae'r sesiynau hyfforddi hyn wedi cael adborth cadarnhaol iawn gan y rhai a gymerodd ran ynddynt, ac mae rhagor o ddigwyddiadau wedi'u cynllunio ar gyfer 2011-12.**



# Ffocws ein gwaith yn y dyfodol





# Helpu Cymru i ymateb i’w heriau ariannol

Mae’r newidiadau sylweddol a’r dewisiadau anodd sy’n wynebu gwasanaethau cyhoeddus Cymru dros y pum mlynedd nesaf wedi’u gosod yng nghyd-destun penderfynoldeb Llywodraeth Cymru i ganolbwyntio’n bennaf ar ddarparu a chyflawni drwy gydol tymor y Pedwerydd Cynulliad. Ac yn y cyd-destun eang hwn rydym yn ceisio datblygu ein gwaith yn y tymor canolig. Caiff ein diagnosis o’r risgiau i sector cyhoeddus Cymru wrth iddo ymateb i’r heriau ariannol a’r heriau o ran cyflawni a darparu sy’n ei wynebu, ei egluro’n fanylach yn ail adroddiad *Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus* yr Archwilydd Cyffredinol, a gyhoeddir yn ystod yr hydref eleni.

Mae’n amlwg mai’r pwysau ariannol yw’r brif her i wasanaethau cyhoeddus Cymru gyda phob rhan o’r gwasanaeth cyhoeddus yn wynebu toriadau mewn termau real. Mae datganoli yn arwain at ddewisiadau gwahanol o ran polisi ledled y DU, ac mae patrymau gwariant cyhoeddus yng Nghymru yn wahanol i’r rhai a welir yng ngweddill y DU. Mae’r GIG yng Nghymru yn wynebu llawer mwy o doriadau na’i gyrff cyfatebol yng ngweddill y DU. Mae’n wynebu heriau sylweddol i dorri gwariant gan barhau ar yr un pryd i ddarparu gwasanaethau o ansawdd i gleifion a’u teuluoedd. Mae hefyd yn wynebu galw cynyddol a phwysau cost eraill.

Mae cynghorau Cymru’n wynebu toriadau ariannol sylweddol hefyd, ond nid cynddrwg ag yr oedd llawer yn ei ddisgwyl. Serch hynny, mae’n dra phosibl y bydd yr hinsawdd economaidd yn arwain at gynnydd yn y galw am eu gwasanaethau ymhlith grwpiau sy’n agored i niwed, ar adeg pan fo llai o adnoddau ar gael. Byddwn yn parhau i ddarparu dadansoddiadau cadarn o waith rheoli ariannol a chynllunio ariannol tymor canolig awdurdodau lleol, a hynny’n benodol drwy asesiadau gwella sydd â ffocws mwy lleol.

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu paratoi adroddiadau cryno rheolaidd ar sefyllfa ariannol GIG Cymru a chanlyniadau ein gwaith archwilio ar draws llywodraeth ganolog, a gweithio gydag archwilwyr penodedig i lunio adroddiad tebyg ar ein gwaith archwilio mewn llywodraeth leol. Bydd y gwaith hwn yn rhoi sicrwydd bod trefniadau rheoli ariannol cadarn ar waith wrth i gyrff cyhoeddus ymateb i’r heriau ariannol sy’n eu hwynebu ar hyn o bryd.

Byddwn hefyd yn ceisio helpu Cymru i wneud defnydd gwell o arian grant, gan gyhoeddi adroddiadau’n ddiweddarach eleni ar reoli grantiau a dosbarthu arian Ewropeaidd. Ochr yn ochr â’r gwaith hwn, rydym yn parhau i ddatblygu cydberthnasau cadarn ac adeiladol â phwyllgorau archwilio a swyddogaethau ariannol ymhob rhan o sector cyhoeddus Cymru. Rydym hefyd yn datblygu mwy o waith arfer da ar gau cyfrifon yn gynt a chyllidebu mwy effeithiol.

# Materion sy'n ymwneud â'r gweithlu yng ngwasanaethau cyhoeddus Cymru

Gan mai costau staffio yw cyfran helaeth o wariant rheoladwy'r gwasanaethau cyhoeddus, mae'n anochel bod pwyslais wedi'i roi ar golli swyddi, rhewi recriwtio, a rhewi codiadau cyflog er mwyn arbed arian. Mae effaith bosibl dull gweithredu o'r fath ar berfformiad a morâl y gweithlu yn sylweddol hefyd. Bydd gwaith cynllunio gweithlu effeithiol, ymgysylltu a chyfathrebu'n effeithiol â staff yn feysydd allweddol y byddwn yn canolbwyntio arnynt yn ein gwaith fel y gallwn helpu cyrff cyhoeddus i liniaru'r risg y bydd gwasanaethau yn methu.

# Rheoli risg ac annog arloesedd wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus


Byddwn yn canolbwyntio ar helpu'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau i gymryd risgiau ar ôl eu hystyried yn ofalus ac yn eu helpu i ymwrthod â diwylliant sy'n osgoi risgiau'n ddiangen. Mae amrywiaeth o gyfleoedd i wasanaethau cyhoeddus arloesi a gweithio ar y cyd er mwyn torri costau a gwella gwasanaethau. Byddwn yn parhau i ymdrechu i helpu gwasanaethau cyhoeddus i fod yn fwy effeithlon a dysgu oddi wrth ei gilydd er mwyn arloesi a gwella.

Un o'r risgiau allweddol fydd rheoli effeithiau gostyngiadau byrdymor mewn swyddi a gwasanaethau er mwyn mantoli cyllidebau. Byddwn yn canolbwyntio ar gydweithredu er mwyn nodi a rheoli'r risgiau hynny. Oni wneir hynny, mae perygl y bydd toriadau mewn gwasanaethau mewn un man ond yn symud galw a chostau i ran arall o'r sector cyhoeddus.

Lle y bo'n bosibl, byddwn hefyd yn ceisio rhoi darlun o sut mae Cymru'n cymharu â rhannau eraill o'r DU, neu wledydd tramor.

# Gwaith archwilio allanol cymesur a gostyngiadau mewn ffioedd archwilio blynyddol

**Arddangosyn 2** Ffioedd a godwyd ar gyrff a archwiliwyd rhwng 2009 a 2011




Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi sicrhau gostyngiadau blynyddol sylweddol yn y ffioedd y mae'n rhaid i ni eu codi ar y cyrff a archwilir gennym, drwy wella effeithlonrwydd, drwy wneud arbedion cost a thrwy weithio mewn modd mwy cymesur. Cafwyd gostyngiad o £1.27 miliwn neu 8.0 y cant yn y ffioedd am archwiliadau llywodraeth leol, y GIG a llywodraeth ganolog, ac am waith grantiau llywodraeth leol rhwng 2009 a 2011 (gweler Arddangosyn 2, lle nad yw cyfanswm ffioedd 2010 yn cynnwys y ffioedd a godwyd am gyfrifon chwe misol cyrff y GIG a ddiddymwyd yn dilyn yr ad-drefnu).

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn adolygu ac yn pennu graddfeydd ffioedd yn flynyddol ar gyfer gwaith archwilio cyrff llywodraeth leol, sydd hefyd yn berthnasol i'r rhan fwyaf o archwiliadau yng nghyrff y GIG. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn llunio'r graddfeydd ffioedd ar sail dull cynllunio archwiliadau sy'n seiliedig ar sero ac fe'u meincnodir yn erbyn y ffioedd a godir gan asiantaethau archwilio eraill y DU, lle bo hynny'n briodol.

Rydym yn parhau i ddatblygu ffyrdd o gael lefelau uchel o sicrwydd cyhoeddus drwy ddibynnu ar waith adolygu cadarn gan eraill. Dengys ein rhaglen ddiweddaraf o astudiaethau gwerth am arian (sydd ar gael ar ein gwefan) sut mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgynghori ag amrywiaeth eang iawn o randdeiliaid er mwyn sicrhau bod y rhaglen yn cydweddu'n effeithiol â gwaith cyrff adolygu eraill.

# Ein sefydliad




# Ein pobl

Mae ein gweithlu medrus a phroffesiynol yn hanfodol er mwyn darparu gwasanaeth archwilio allanol o ansawdd i bobl Cymru.

Ar ddiwedd blwyddyn 2010-11, roedd yr Archwilydd Cyffredinol yn cyflogi 253 aelod o staff yn uniongyrchol (222 cyfwerth ag amser cyflawn).

**Arddangosyn 3** **Demograffeg staff Swyddfa Archwilio Cymru**




**Arddangosyn 4** **Trosiant**

| Blwyddyn | 2009-10 | 2010-11 |
|---|---|---|
| Trosiant | 2.76% | 12.36%[1] |
| Ymadawyr | 8 | 33[2] |

1 Mae hyn yn cymharu â chyfradd trosiant llafur ganolrif o 8.5 y cant ar gyfer y sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus hynny a ymatebodd i arolwg adnoddau a chynllunio talent blynyddol CIPD yn 2011.

2 Gadawodd 14 o blith y 33 aelod hyn o staff o dan gynllun diswyddo gwirfoddol a oedd yn agored i bob cyflogai.

# Rheoli absenoldeb a phresenoldeb


Mae *Polisi Rheoli Presenoldeb* manylach wedi bod ar waith yn Swyddfa Archwilio Cymru drwy gydol 2010-11, ar ôl iddo gael ei gymeradwyo ym mis Mawrth 2010. Prif nodau'r polisi yw:

- rhoi canllawiau clir i staff ar beth y dylent ei wneud os byddant yn absennol;
- sicrhau bod pob aelod o staff yn cael ei drin mewn ffordd deg a chyson os na all fynd i'r gwaith;
- annog staff i geisio cymorth meddygol priodol a chysylltu â'n Rhaglen Gymorth 24 Awr i Gyflogeion.

Rydym yn falch bod y polisi wedi arwain at leihad yn lefel yr absenoldebau byrdymor oherwydd salwch. Bu cynnydd mewn absenoldebau hirdymor oherwydd salwch yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a hynny'n bennaf yn sgîl cyflyrau nad ydynt yn gysylltiedig â'r gwaith. Mae'r polisi newydd wedi ein galluogi i roi cymorth mwy effeithiol i'r staff hynny.

Ategir ein *Polisi Rheoli Presenoldeb* gan ein gwaith i hybu ffyrdd iach o fyw, ein polisïau *Straen yn y Gweithle a Gweithio Hyblyg*, a hyfforddiant i staff ar sut i reoli symptomau straen yn effeithiol.

**Arddangosyn 5** **Absenoldeb**





# Cydraddoldeb, amrywiaeth ac urddas yn y gwaith

Nod yr Archwilydd Cyffredinol yw hyrwyddo amrywiaeth, cyfle cyfartal a hawliau dynol, fel cyflogwr a thrwy ei swyddogaethau statudol. Mae'n ceisio cyflawni rhwymedigaethau statudol perthnasol yn ogystal ag annog arfer da fel bod cyflogeion presennol a darpar gyflogeion yn cael eu trin yn gadarnhaol ac yn gyson.

O fis Mai 2011, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb Cyffredinol newydd y Sector Cyhoeddus sy'n golygu, wrth gynllunio a gwneud ei waith, rhaid iddo ystyried sut y gall y gwaith hwnnw, ymhlith pethau eraill, helpu i ddileu achosion o wahaniaethu, datblygu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl â nodweddion gwarchodedig. Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gydymffurfio â Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol y Sector Cyhoeddus hefyd. Rydym wrthi'n gweithio i gyflawni'r dyletswyddau newydd hyn, gan gynnwys gwneud trefniadau i gynnwys cynrychiolwyr pobl â nodweddion gwarchodedig yn y gwaith o bennu ein hamcanion cydraddoldeb penodol.

Yn yr un modd, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cefnogi'n llawn yr hawl sydd gan bawb i gael eu trin ag urddas a pharch yn y gwaith ac mae'n ymrwymedig i ddarparu amgylchedd gwaith sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth pob gweithiwr (ein staff ein hunain a'r rhai rydym yn dod i gysylltiad â hwy yn ystod ein gwaith) ac sy'n rhydd rhag pob math o aflonyddu a bwlio.

Er mwyn gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ein staff o'n *Polisi Urddas yn y Gwaith*, gwnaethom gynnal cyfres o weithdai urddas yn y gwaith â hwyluswyr allanol rhwng mis Tachwedd 2009 a mis Mai 2010 ar gyfer ein staff i gyd, gan gynnwys pob rheolwr. Sefydlwyd llinell gymorth gyfrinachol arbennig hefyd a hysbyswyd pob aelod o staff amdani ar ddiwedd pob sesiwn hyfforddi.

Nododd darparwr y llinell gymorth yn ddiweddar nad oedd unrhyw un wedi cysylltu â'r llinell rhwng 27 Tachwedd 2009 pan gafodd ei sefydlu a 31 Mawrth 2011. Er ei bod yn bosibl bod hyn yn awgrymu nad oes problemau ar hyn o bryd neu nad oes problemau enbyd mewn perthynas â bwlio ac aflonyddu, byddwn yn parhau i bwysleisio'r neges ymhlith ein staff i gyd na fyddwn yn goddef bwlio ac aflonyddu.


# Ymgysylltu â staff

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod Swyddfa Archwilio Cymru yn parhau i fod yn sefydliad y mae pobl yn teimlo'n falch o weithio iddo, ac i helpu staff i fwynhau eu gwaith a theimlo y gallant wneud gwahaniaeth i wasanaethau cyhoeddus.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ceisio cynnwys cyflogeion ac ymgynghori â hwy ynghylch amrywiaeth o faterion gan gynnwys telerau ac amodau, drwy'r undebau llafur.

Mae arolygon staff yn hollbwysig er mwyn deall barn staff a chanfod beth y mae angen i ni ei wneud i wella yn eu barn hwy. Gwnaethom ryddhau canlyniadau ein harolwg staff blynyddol diweddaraf yn fewnol ym mis Gorffennaf 2010. Yn yr arolwg hwnnw, nododd ein staff lawer o agweddau cadarnhaol ar weithio i Swyddfa Archwilio Cymru. Gwnaethant nodi hefyd rai materion a oedd yn dal i beri pryder a meysydd i'w gwella a oedd yn ymwneud â dyrannu gwaith a llwyth gwaith, cysylltiadau corfforaethol a rheoli perfformiad, ac rydym wedi rhoi blaenoriaeth i weithio arnynt ymhellach.

# Dysgu a datblygu




Yn ystod 2010-11 lansiwyd *Ignite*, sef ein rhaglen datblygu staff lwyddiannus. Nod *Ignite* yw rhoi hyfforddiant o ansawdd i staff i'w galluogi i ddatblygu a gwella'r sgiliau a'r cymwyseddau sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu rolau'n effeithiol.

Yn ystod blwyddyn gyntaf y rhaglen, cynhaliwyd rhaglen datblygu arweinwyr a luniwyd ar gyfer y staff hynny sy'n treulio cyfran sylweddol o'u hamser yn rheoli eraill.

Llywiwyd cynnwys y rhaglen i arweinwyr gan grŵp cyfeirio o staff ac yna fe'i datblygwyd gyda chymorth un o gyn-Brif Weithredwyr Ysgol Lywodraethu Genedlaethol y DU. Roedd yn cynnwys ymarfer astudiaethau achos byw, lle bu'n rhaid gweithio gydag elusennau neu sefydliadau eraill yn y trydydd sector. Cymerodd 57 o aelodau o staff ran yn y rhaglen i arweinwyr yn ystod 2010-11, a theimlai cyfran uchel iawn ohonynt fod y rhaglen wedi cyflawni ei hamcanion.

Ochr yn ochr â'r rhaglen datblygu arweinwyr, darparwyd amrywiaeth o hyfforddiant mewnol ac allanol arall i staff yn 2010-11 i ddiwallu eu hanghenion datblygu corfforaethol a phroffesiynol.

# Datblygu cynaliadwy

Mae a wnelo datblygu cynaliadwy â diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwy. Rydym yn ymrwymedig i gynnwys datblygu cynaliadwy ymhob rhan o'n gwaith archwilio, yn ogystal â'r ffordd rydym yn gweithio fel sefydliad.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweithio'n galed i gynnwys datblygu cynaliadwy yn ein dulliau gweithio, a hynny mewn amrywiaeth eang o ffyrdd. Y prif feysydd y canolbwyntiwyd arnynt oedd lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd, cynnal adolygiad o effeithlonrwydd drwy herio ein dulliau gweithio ar y pryd a chynnal rhaglen datblygu arweinwyr a oedd yn datblygu ein staff ac yn cael effaith gadarnhaol ar y gymuned ehangach hefyd.



**'Y llynedd, cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru adroddiad dylanwadol ar beth arall y mae angen i ni ei wneud i barhau i ystyried datblygu cynaliadwy wrth wneud penderfyniadau busnes. Fel rhan o'r broses graffu, rydym am i Swyddfa Archwilio Cymru barhau i graffu ar ein hadrannau i gyd er mwyn sicrhau ein bod yn cyrraedd y nod. Rydym yn awyddus hefyd fod Swyddfa Archwilio Cymru yn gallu sefydlu arferion datblygu cynaliadwy drwy'r ffordd y mae'n gwneud ei gwaith archwilio i gyd ar draws sector cyhoeddus Cymru.'**

**Dyfyniad o anerchiad y Gweinidog i'r 'Big Sustainability Summit' yn Llundain, Mawrth 2011**

# Lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd

Yn ystod 2010-11, gwnaethom gynnydd sylweddol o ran cyflawni ein targedau amgylcheddol:

- Bu cynnydd o 67 y cant yn ein defnydd o fideogynadledda. Hefyd, bu lleihad o 136,325 o filltiroedd yn ein teithiau ceir a lleihad o 17,024 o filltiroedd yn ein dulliau teithio eraill, gan ragori cryn dipyn ar ein targedau (mae'r lleihad yn ein holl deithiau busnes hefyd wedi arwain at leihad o tua £29,000 yn ein costau teithio a llety dros nos).

- Gwnaethom leihau teithiau tacsi 11 y cant mewn blwyddyn yn unig, gan ragori ar ein targed gwreiddiol o bump y cant.

- Gwnaethom barhau i ddefnyddio llai o bapur yn flynyddol, gan sicrhau gostyngiad o 19 y cant eleni. Gwnaed hyn yn bennaf drwy sicrhau gostyngiad o tua 80 y cant yn nifer yr anfonebau papur a anfonwyd, argraffu llai o gopïau o adroddiadau, a hyrwyddo'r arfer o gadw cofnodion electronig.

- Ni lwyddwyd i gyflawni ein targed o ostwng ein defnydd o drydan ddau y cant bob blwyddyn. Er i ni gymryd camau i ddefnyddio ein hadnoddau ynni'n well, yn sgîl y cyfnod hir o dywydd oer a gafwyd yn ystod gaeaf 2010, gwnaethom ddefnyddio dwywaith cymaint o drydan ag arfer i wresogi ein swyddfeydd yn ystod y cyfnod hwnnw. Fodd bynnag, gwnaethom lwyddo i sicrhau lleihad o 71,828 kg yng nghyfanswm ein hallyriadau $CO_2$ o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

- Cafodd ein prif swyddfeydd i gyd eu hailachredu ar Lefel 3 Safon Amgylcheddol Draig Werdd Groundwork Cymru i gydnabod ein systemau a'n gweithdrefnau rheoli amgylcheddol.

Ym mis Chwefror 2011, gwnaethom gynnal arolwg ailgylchu mewnol a sesiynau gwybodaeth er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth, cefnogi ein gwaith archwilio a gwneud gwelliannau megis hyrwyddo ailgylchu'n gliriach.

# Effeithlonrwydd ac arbedion

Mae pob corff sector cyhoeddus, gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru, yn wynebu'r her o barhau i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl yn erbyn pwysau nas gwelwyd ei debyg o'r blaen ar arian cyhoeddus. Er i ni ragori ar ein targedau effeithlonrwydd cyffredinol dros y pum mlynedd diwethaf, gwnaethom barhau i adolygu ein gwariant yn 2010-11 a sefydlwyd Grŵp Adolygu Effeithlonrwydd ac Arbedion mewnol i gyflymu ein cynnydd yn y maes hwn.

Rydym wedi llwyddo i arbed dros £1,000,000 drwy leihau costau a gwella effeithlonrwydd yn 2010-11 (gweler yr adran Adolygiad Ariannol).

# Gwaith cymunedol ac elusennol

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cydnabod y buddiannau y gall gwaith cymunedol a gwaith elusennol gan staff eu cyflwyno i'r gymuned ehangach ac yn cymeradwyo'r staff am eu hymdrechion unigol. Gall staff ddefnyddio'r sgiliau a ddatblygwyd ganddynt yn y gweithle a datblygu sgiliau newydd, gan wella eu morâl, eu hiechyd corfforol a'u cydbwysedd bywyd a gwaith ar yr un pryd.

Yn amodol ar ofynion gweithredol mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cefnogi cyflogeion sydd am gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol neu elusennol fel gwaith gofal yn y gymuned, gwaith amgylcheddol a phrosiectau cadwraeth, codi arian i brosiectau cymunedol ac elusennau, a gweinyddu digwyddiadau cyhoeddus.

Gall staff ymuno â chynllun 'rhoi wrth ennill' hefyd, a chynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau mewnol i godi arian i elusennau drwy gydol y flwyddyn.

# Gweithio gyda'r trydydd sector

Fel rhan o'n rhaglen datblygu arweinwyr cynhaliwyd ymarfer astudiaethau achos byw, gan weithio gydag elusen neu sefydliad trydydd sector arall. Roedd y rhan fwyaf o'r astudiaethau achos yn cynnwys adolygiadau dwys o wasanaethau a datrys heriau penodol, er enghraifft, hyrwyddo cenhadaeth y sefydliad a goroesi mewn cyfnodau economaidd anodd. Yn 2010-11, gweithiodd y rhai a oedd yn rhan o'n rhaglen Tanio gyda Tai Pawb, sefydliad sy'n hyrwyddo cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol o ran tai yng Nghymru, Cyngor Ffoaduriaid Cymru, Tenovus - yr elusen ganser - a Chymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro.


**'Bu gwaith caled uwch reolwyr yn Swyddfa Archwilio Cymru yn werthfawr iawn i Tai Pawb, oherwydd roedd yn dda cael safbwyntiau ffres o'r tu allan i'r sefydliad.'**

Adroddiad Blynyddol Tai Pawb

**'Roeddem yn awyddus i roi adborth fel sefydliad ar faint o bleser oedd hi i weithio gyda hwy - roeddent yn broffesiynol bob amser, yn gallu cyfathrebu'n fedrus â rhai o'n cleientiaid nad oes ganddynt lawer o Saesneg ac wedi dangos amrywiaeth eang o sgiliau caled a meddal. Ar yr un pryd, fe wnaethant ein herio gan ofyn y 'cwestiynau anodd' hynny; roedd eu gallu i ddod o hyd i'r problemau sydd wrth wraidd Cyngor Ffoaduriaid Cymru yn drawiadol. Gwnaethant weithio ar sefyllfa go iawn gan ein bod bellach yn wynebu toriad o draean yn ein cyllideb, gwerth £720,000, o fis Ebrill 2011. Gwnaethant roi rhai atebion gwirioneddol i ni ac fel y dywedais, mae wedi gwneud gwahaniaeth i'r ffordd rydym yn meddwl am ailstrwythuro a newid ffocws y sefydliad.'**

Prif Weithredwr Cyngor Ffoaduriaid Cymru, mewn nodyn o ddiolch i'r Archwilydd Cyffredinol

# Crynodeb ariannol



# Canlyniad ariannol

Caiff gwaith Swyddfa Archwilio Cymru ei ariannu drwy amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys arian o Gronfa Gyfunol Cymru, ffioedd archwilio a godir ar gyrff a archwilir a chyfraniadau gan gwmnïau sydd ar gontract.


Crynhoir canlyniadau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2010-11 fel a ganlyn:

| | | £'000 |
|---|---|---|
| **Incwm ac ariannu** | | |
| Ffioedd archwilio ac arolygu: | Llywodraeth leol | 13,391 |
| | Y GIG | 4,181 |
| | Llywodraeth ganolog | 1,604 |
| Cronfa Gyfunol Cymru | | 5,047 |
| Incwm arall | | 258 |
| | | 24,481 |
| **Gwariant** | | |
| Costau staff | | 16,086 |
| Gwasanaethau allanol | | 3,379 |
| Costau gweithredu eraill | | 2,993 |
| Treth gorfforaeth | | 13 |
| | | 22,471 |
| Gwarged a gynhyrchwyd yn ystod y flwyddyn | | 2,010 |
| Addasiadau o'r flwyddyn flaenorol | | (1,336) |
| | | 674 |
| Yn daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | | (629) |
| Balans y gronfa gyffredinol fel y nodwyd yng nghyfrifon 2009-10 (heb gynnwys effaith yr addasiad o'r flwyddyn flaenorol) | | 117 |
| **Balans y gronfa gyffredinol ar 31 Mawrth 2011** | | **162** |


Mae'r warged net gyffredinol a gynhyrchwyd yn ystod y flwyddyn i'w gweld yn y cyfrifon fel a ganlyn:

| | £'000 |
|---|---|
| Arian o Gronfa Gyfunol Cymru | 5,047 |
| Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr | (3,037) |
| Effaith addasiadau o'r flwyddyn flaenorol ar gyfer darpariaethau | (1,336) |
| Gwariant cyfalafol a ariannwyd gan Gronfa Gyfunol Cymru | (27) |
| Gwarged net a gynhyrchwyd yn ystod y flwyddyn | 674 |

Dangosir y prif ffynonellau ariannu yn ystod 2010-11 yn y siart ganlynol:




Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn defnyddio'r cronfeydd hyn i dalu ei staff a rhoi'r cymorth sydd ei angen arnynt i'w galluogi i wneud eu gwaith. Dangosir y prif feysydd gwariant yn ystod y flwyddyn yn y siart ganlynol:



## Sylwadau ar y canlyniadau

Mae pob corff sector cyhoeddus, gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru, yn wynebu pwysau ariannol mawr ar hyn o bryd o ganlyniad i leihad sylweddol yng ngwariant y sector cyhoeddus nawr ac yn y dyfodol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gweithio ar raglen i leihau ffioedd archwilio lle bo hynny'n bosibl mewn ymateb i'r pwysau ar y cyrff a archwilir ganddi.

Fel yr adroddwyd yn eang yn y cyfryngau, gwnaethom ganfod yn 2010 fod ein cyfrifon ar gyfer 2009-10 a blynyddoedd cynharach wedi'u camddatgan gan nad oeddent wedi cynnwys yn briodol y darpariaethau ar gyfer ymddeoliadau cynnar. Aethpwyd i'r afael â hyn yng nghyfrifon 2010-11 drwy wneud addasiad blwyddyn flaenorol. Felly rydym wedi gorfod canfod adnoddau i ariannu'r ymrwymiadau parhaus hyn sy'n gysylltiedig ag ymddeoliadau cynnar nad oeddent wedi'u cynnwys yng nghyfrifon blynyddoedd blaenorol. Roedd yn ofynnol i ni ddod o hyd i £1,336,000 o adnoddau net.

Cafwyd gwarged weithredu o £2,010,000 yn ystod y flwyddyn a ddefnyddiwyd yn bennaf i ariannu cyfanswm addasiadau'r flwyddyn flaenorol, sef £1,336,000, gan roi gwarged net o £674,000. Ar adeg pan fo incwm o ffioedd archwilio yn lleihau (gweler Ffocws ein gwaith yn y dyfodol), rydym wedi llwyddo i leihau costau'n sylweddol, gwneud arbedion effeithlonrwydd a gohirio rhywfaint o wariant er mwyn ariannu darpariaethau'r ymddeoliadau cynnar hynny, ac wedi cynhyrchu'r gwarged ychwanegol bach hwn yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Pwyllgor Gweithredol am ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael i ariannu cynllun diswyddo gwirfoddol arall yn ystod 2011-12. Bwriad y cynllun hwn yw lleihau sylfaen costau Swyddfa Archwilio Cymru ymhellach.

## Effeithlonrwydd ac arbedion

Er i ni ragori ar ein targedau effeithlonrwydd cyffredinol dros y pum mlynedd diwethaf, bu'n rhaid i ni hefyd leihau costau'n sylweddol yn ystod 2010-11 i ariannu effaith costau ymddeoliadau cynnar y blynyddoedd blaenorol fel y nodwyd uchod.

Gwnaethom lwyddo i arbed ymhell dros £1,000,000 yn erbyn gwariant arfaethedig drwy leihau costau a gwella effeithlonrwydd yn 2010-11. Gwnaed hyn mewn amrywiaeth eang iawn o feysydd, gan gynnwys arbedion rhan-flwyddyn o gynllun diswyddo gwirfoddol y llynedd ac arbedion eraill o dros £300,000 (cylchol) mewn costau staff, yn ogystal ag arbedion pellach o dros £80,000 (cylchol) mewn hyfforddiant, dros £75,000 (cylchol) mewn costau cyhoeddi a chyfieithu a thros £335,000 mewn gwariant TGCh (gohiriedig yn bennaf).

Fel rhan o'r gwaith hwn, gwnaethom hefyd adolygu ein hystad ledled Cymru ac rydym yn ystyried gwneud newidiadau pellach i'n swyddfeydd mewn ymgynghoriad â staff, a all arwain at leihau costau yn y dyfodol.

## Atebolrwydd i'r Cynulliad Cenedlaethol

Fel y crynhoir yn y Crynodeb o Alldro Adnoddau, mae swm arian parod o £629,000 yn daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru. Fodd bynnag, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu gofyn am ganiatâd y Cynulliad Cenedlaethol i gadw adnodd cyfatebol er mwyn helpu i ariannu'r cynllun diswyddo gwirfoddol arall y cyfeiriwyd ato uchod.

# Ein rheolaeth ariannol

Rydym wrthi'n gweithio i fireinio ein trefniadau rheoli ariannol ymhellach. Mae hyn yn cynnwys cysoni cyfrifoldebau rheoli cyllidebau'n well ag atebolrwydd gweithredol a'r gwaith diweddar i ddatblygu model ffioedd diwygiedig. Rydym hefyd yn bwriadu asesu ein rheolaethau a'n harferion ariannol mewnol yn erbyn *Model o Aeddfedrwydd ar gyfer Rheolaeth Ariannol* a ddatblygwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol fel adnodd i asesu trefniadau rheoli ariannol.

# Risg ac ansicrwydd

Mae'r sector cyhoeddus yn wynebu heriau digyffelyb i raddfa, cwmpas a sefyllfa ariannol ei weithrediadau dros y blynyddoedd i ddod. Fel yr eglurwyd yn *Ffocws ein gwaith yn y dyfodol*, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn ymateb i'r pwysau ariannol sy'n wynebu'r cyrff a archwilir ganddi drwy raglen o leihau ffioedd archwilio.

Mae hyn yn ei dro yn lleihau'r incwm fydd ar gael i Swyddfa Archwilio Cymru yn y dyfodol. Rydym yn gweithio i reoli'r rhain drwy ragor o ostyngiadau strwythuredig mewn costau, effeithlonrwydd a gwaith cynllunio busnes gwell.

Fel yr eglurwyd yn Nodyn 19 ar y datganiadau ariannol, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi parhau i ddefnyddio'r triniaethau TAW a fabwysiadwyd gan ei gyrff rhagflaenol, sef Comisiwn Archwilio Cymru a Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru. Mae trafodaethau wedi bod yn mynd rhagddynt â Chyllid a Thollau EM ers sawl blwyddyn i gadarnhau statws TAW yr Archwilydd Cyffredinol a phennu statws priodol ei gyflenwadau TAW. Er bod y trafodaethau hyn yn mynd rhagddynt yn dda, ar hyn o bryd nid yw'n bosibl dweud a fydd unrhyw rwymedigaeth yn crisialu, ac os felly, beth fyddai swm tebygol rhwymedigaeth o'r fath. Pe bai rhwymedigaeth sylweddol yn crisialu, byddai angen i'r Archwilydd Cyffredinol gael arian o Gronfa Gyfunol Cymru neu gynyddu ffioedd archwilio i fodloni'r rhwymedigaeth honno.

# Talu cyflenwyr

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu gweithredu yn unol ag egwyddorion y Cod Ymarfer Talu Gwell a thalu pob anfoneb ddiamheuol gan gyflenwyr o fewn 30 diwrnod. Yn ystod y cyfnod o 12 mis, talwyd 96.1 y cant o'r anfonebau diamheuol o fewn 30 diwrnod (2009-10, 96.3 y cant).


# Archwilwyr Swyddfa Archwilio Cymru

Penodwyd Archwilydd Cyffredinol yr Alban gan y Cynulliad Cenedlaethol i gynnal archwiliad allanol o gyfrifon Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer 2010-11.

Mae'r holl wybodaeth archwilio berthnasol ar gael i'r archwilwyr allanol ac mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cymryd camau i sicrhau ei fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac wedi sicrhau bod yr archwilwyr allanol yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.



# Datganiadau o gyfrifon



# Adroddiad Cydnabyddiaeth

## Polisi cydnabyddiaeth

### Archwilydd Cyffredinol Cymru

Caiff cydnabyddiaeth yr Archwilydd Cyffredinol ei phennu gan y Cynulliad Cenedlaethol, ac yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006, fe'i hariennir gan Gronfa Gyfunol Cymru. Fodd bynnag, er mwyn bod yn fwy tryloyw, caiff manylion cydnabyddiaeth yr Archwilydd Cyffredinol eu cynnwys yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth hwn.

### Aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg

Caiff cydnabyddiaeth yr aelodau anweithredol hyn ei phennu gan yr Archwilydd Cyffredinol.

### Staff Swyddfa Archwilio Cymru

Yn unol â deddfwriaeth gall yr Archwilydd Cyffredinol benodi unrhyw staff sydd eu hangen yn ei farn ef i'w helpu i gyflawni ei ddyletswyddau. Caiff cydnabyddiaeth aelodau'r Pwyllgor Gweithredol ei phennu gan yr Archwilydd Cyffredinol. Caiff telerau cydnabyddiaeth staff eraill Swyddfa Archwilio Cymru eu pennu gan Bwyllgor Gweithredol Swyddfa Archwilio Cymru. Ymgynghorir ag undebau llafur ynghylch cydnabyddiaeth pob aelod o staff yn unol â chydgytundeb.

### Pwyllgor Cydnabyddiaeth

Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi sefydlu Pwyllgor Cydnabyddiaeth a fydd yn dechrau gweithredu yn ystod 2011-12. Bydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn helpu'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei gyfrifoldebau am faterion sy'n ymwneud â chydnabyddiaeth staff Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys uwch aelodau o staff.

## Manylion taliadau cydnabyddiaeth

### Archwilydd Cyffredinol Cymru

Codir costau cyflog yr Archwilydd Cyffredinol yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru ac felly nid Swyddfa Archwilio Cymru sy'n eu talu. Penodwyd yr Archwilydd Cyffredinol presennol, Mr Huw Vaughan Thomas, gan Ei Mawrhydi'r Frenhines a dechreuodd ei swydd ar 1 Hydref 2010 am gyfnod o wyth mlynedd na ellir ei adnewyddu. Ms Gillian Body oedd yr Archwilydd Cyffredinol rhwng 12 Chwefror 2010 a 30 Medi 2010.

£142,850 oedd costau cyflog gros yr Archwilwyr Cyffredinol yn ystod 2010-11 (Mr Huw Vaughan Thomas: £75,000 a Ms Gillian Body: £67,850) (2009-10: £164,706) a £27,838 oedd costau pensiwn y cyflogwr (Mr Huw Vaughan Thomas: £11,350 a Ms Gillian Body: £16,488) (2009-10: £30,070).

Mae Mr Huw Vaughan Thomas wedi dewis cyfrannu at gyfrif pensiwn partneriaeth (math o bensiwn cyfranddeiliaid personol y mae cyflogwr yn cyfrannu ato). £12,833 oedd cyfanswm y cyfraniadau i'r cyfrif hwn yn ystod 2010-11 (gan gynnwys £11,350 gan y cyflogwr a £1,483 gan yr aelod).

Roedd Ms Gillian Body yn aelod o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) yn ystod ei chyfnod yn y swydd. Darperir gwybodaeth am ei buddiannau pensiwn yn natgeliadau'r uwch reolwyr isod.

Roedd Mr Jeremy Colman yn aelod o PCSPS yn ystod ei gyfnod yn y swydd. £604,472 oedd Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod (CETV) ei fuddiannau pensiwn erbyn diwedd ei gyfnod yn y swydd, ac roedd wedi cronni pensiwn o £25,445 erbyn hynny. Roedd hyn yn cynnwys cynnydd gwirioneddol o £52,549 mewn CETV yn ystod 2009-10 a chynnydd gwirioneddol o £2,304 mewn buddiannau pensiwn.

Caiff y wybodaeth ganlynol yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth ei harchwilio.

## Uwch reolwyr

Caiff y Pwyllgor Gweithredol ei gadeirio gan yr Archwilydd Cyffredinol ac yn ystod 2010-11 roedd yn cynnwys y canlynol:

| | Dyddiad eu penodi i Swyddfa Archwilio Cymru neu sefydliad rhagflaenol | Dyddiad eu penodi i'r swydd | Dyddiad gorffen | Contract |
|---|---|---|---|---|
| **Gillian Body**[1] | 02/09/1981 | 01/12/2009 | Dd/G | Parhaol |
| **Anthony Barrett** | 24/01/2001 | 01/12/2009 | Dd/G | Parhaol |
| **Kevin Thomas**[2] | 26/10/1992 | 01/12/2009 | Dd/G | Parhaol |

1 Rhwng 12 Chwefror 2010 a 30 Medi 2010 Gillian Body oedd yr Archwilydd Cyffredinol dros dro.
2 Yn dilyn proses ddethol gystadleuol, penodwyd Kevin Thomas ar 1 Rhagfyr 2009 am gyfnod cychwynnol o 12 mis. Cafodd swydd barhaol yn dilyn proses ddethol arall ar ddiwedd y cyfnod 12 mis hwn.

Adolygir perfformiad pob un o aelodau'r Pwyllgor Gweithredol ddwywaith y flwyddyn. Y cyfnod rhybudd i bob aelod yw deuddeg wythnos. Pe byddai contract unigolyn yn cael ei derfynu'n gynnar, ac eithrio am achos o gamymddwyn, byddai'n cael iawndal am golli ei swydd.

# Manylion taliadau cydnabyddiaeth uwch reolwyr

Mae'r tabl canlynol yn cynnwys gwybodaeth am daliadau cydnabyddiaeth y Pwyllgor Gweithredol (a'i ragflaenydd, sef y Pwyllgor Rheoli). Mae'n cynnwys manylion taliadau cydnabyddiaeth aelodau'r Pwyllgor Rheoli yn 2009-10 hyd nes iddo gael ei ddisodli gan y Pwyllgor Gweithredol ar 1 Rhagfyr 2009, a manylion taliadau cydnabyddiaeth aelodau'r Pwyllgor Gweithredol o'r dyddiad hwnnw. Yn achos Ms Gillian Body, dim ond y taliadau cydnabyddiaeth a gafodd yn ystod y cyfnod pan nad oedd yn Archwilydd Cyffredinol a ddangosir yn y tabl hwn.

| | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2011 | | | | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2010 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflog | Buddiannau mewn da (ceir ar brydles) | Cyfanswm | Cyfraniad pensiwn | Cyfanswm (heb gynnwys cyfraniad pensiwn) | Cyfraniadau pensiwn |
| | Bandiau o £5,000 | I'r £100 agosaf | Bandiau o £5,000 | Bandiau o £2,500 | Bandiau o £5,000 | Bandiau o £2,500 |
| **Gillian Body**[1, 3, 4] | 55-60 | 0 | 55-60 | 12.5-15.0 | 95-100 | 20.0-25.0 |
| **Anthony Barrett**[4] | 110-115 | 4,100 | 115-120 | 27.5-30.0 | 35-40 | 7.5-10.0 |
| **Kevin Thomas**[4] | 95-100 | 5,200 | 100-105 | 22.5-25.0 | 35-40 | 7.5-10.0 |
| **Anthony Snow**[2, 3, 4] | - | - | - | - | 780-785 | 15.0-17.5 |
| **Jane Holownia**[3, 4] | - | - | - | - | 65-70 | 12.5-15.0 |
| **Simon Edge**[3, 4] | - | - | - | - | 70-75 | 15.0-17.5 |
| **Ceri Stradling**[3, 4] | - | - | - | - | 70-75 | 15.0-17.5 |

1 Rhwng 12 Chwefror 2010 a 30 Medi 2010, Gillian Body oedd yr Archwilydd Cyffredinol dros dro. Yn ystod y cyfnod hwn talwyd ei chyflog yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru.

2 Yn ogystal â chyflog blynyddol, mae hyn yn cynnwys cyfandaliad terfynu swydd o £100,000, cyflog o £28,849 a dalwyd yn lle rhybudd a chyfraniadau pensiwn blynyddol yn y dyfodol o £63,770 i Anthony Snow hyd nes ei fod yn 60 oed o dan delerau cytundeb cymodi. Ni ddatgelwyd y wybodaeth hon yn llawn yng nghyfrifon 2009-10. Ni chafodd unrhyw uwch reolwyr eraill fuddiannau terfynu swydd y dylid eu nodi yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth.

3 Roedd Gillian Body, Anthony Snow, Jane Holownia, Simon Edge a Ceri Stradling yn aelodau o'r Pwyllgor Rheoli a ddisodlwyd gan y Pwyllgor Gweithredol o 1 Rhagfyr 2009.

4 Roedd cyflogau cyfwerth â blwyddyn lawn aelodau'r Pwyllgor Gweithredol a'r Pwyllgor Rheoli yn ystod 2009-10 fel a ganlyn: Gillian Body - £118,000; Anthony Barrett - £113,900; Kevin Thomas - £96,240; Anthony Snow - £127,015; Jane Holownia - £96,836; Simon Edge - £103,900; a Ceri Stradling - £103,900.

Ni thalwyd unrhyw fonysau i unrhyw aelodau o staff.

# Manylion pensiwn uwch reolwyr

| | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn yn 60 oed | Cynnydd gwirioneddol mewn cyfandaliad | Pensiwn ar 31 Mawrth 2011 | Cyfandaliad ar 31 Mawrth 2011 | Cyfanswm pensiwn a gronnwyd ar 31 Mawrth 2010 | Cynnydd mewn gwerth trosglwyddo | CETV ar 31 Mawrth 2011 | CETV ar 31 Mawrth 2010 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Bandiau o £2,500 | Bandiau o £2,500 | Bandiau o £5,000 | Bandiau o £5,000 | Bandiau o £5,000 | £000'oedd | £000'oedd | £000'oedd |
| **Gillian Body** | 0-2.5 | 0-2.5 | 40-45 | 130-135 | 160-165 | 6 | 744 | 728 |
| **Anthony Barrett** | 2.5-5 | - | 25-30 | - | 20-25 | 22 | 298 | 239 |
| **Kevin Thomas** | 5-7.5 | - | 30-35 | - | 25-30 | 52 | 356 | 277 |

Newidiwyd y ffactorau actiwaraidd a ddefnyddir i gyfrifo gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod (CETV) yn ystod 2010-11. Mae ffigurau CETV ar 31 Mawrth 2010 yn wahanol i'r ffigurau cyfatebol yn Adroddiad Cydnabyddiaeth y llynedd a gyfrifwyd gan ddefnyddio'r ffactorau blaenorol.

## Gwerthoedd trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod

Y CETV yw gwerth y buddiannau cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol, wedi'u cyfalafu'n actiwaraidd. Y buddiannau a gaiff eu prisio yw'r buddiannau a gronnwyd gan yr aelod ac unrhyw bensiwn wrth gefn i briod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae'n cyfeirio at daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau buddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall lle mae'r aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddiannau a gronnwyd yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn nodi'r buddiannau a gronnwyd gan yr unigolyn drwy gydol ei gyfnod fel aelod o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei gyfnod yn yr uwch swydd y mae'r datgeliad yn berthnasol iddo. Mae'r ffigurau CETV, a'r manylion pensiwn eraill, yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'u trosglwyddo i drefniadau Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac y mae'r Bleidlais Blwydd-daliadau Sifil wedi cael taliad trosglwyddo amdanynt sy'n gyfwerth â'r rhwymedigaethau pensiwn ychwanegol sy'n gysylltiedig. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiannau pensiwn ychwanegol a gronnir gan yr aelod ar ôl iddo brynu blynyddoedd ychwanegol o wasanaeth pensiwn yn y cynllun gyda'i arian ei hun. Cyfrifir CETV yn unol â'r canllawiau a'r fframwaith a ragnodir gan y Sefydliad a'r Gyfadran Actiwarïaid.

Y cynnydd gwirioneddol mewn CETV yw'r cynnydd a ariennir gan y cyflogwr i bob pwrpas. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn a gronnwyd o ganlyniad i chwyddiant na chyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

# Y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg

Mae manylion taliadau cydnabyddiaeth Aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg fel a ganlyn:

| | 2010-11<br>£ | 2009-10<br>£ |
|---|---|---|
| **Peter Laing – Cadeirydd**[1] | 11,650 | 12,521 |
| **Yr Athro David Hands** | 5,000 | 5,000 |
| **Rosamund Blomfield-Smith** | 5,000 | 5,000 |
| **Haydn Warman** | 5,000 | 2,069 |
| **Dr Michael P Brooker** | 5,000 | 2,069 |
| **Denver Lynn**[2] | Nil | Nil |

1 Mae Mr Laing yn cael £7,250 fel Cadeirydd y pwyllgor hwn. Cafodd dâl cydnabyddiaeth ychwanegol, a gynhwysir yn y ffigurau uchod, am ragor o waith a gomisiynwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol.

2 Mae Mr Lynn yn Gyfarwyddwr sy'n gweithio i Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon. Ni chafodd unrhyw dâl cydnabyddiaeth gan Swyddfa Archwilio Cymru am fod yn aelod o'r pwyllgor hwn.

Mae gan bob aelod gontract o dair blynedd y gellir ei ymestyn am hyd at dair blynedd arall gyda chydsyniad pawb dan sylw, ac mae'r pwyllgor yn cyfarfod hyd at bedair gwaith y flwyddyn. Mae contractau Peter Laing, yr Athro David Hands a Rosamund Blomfield-Smith wedi cael eu hymestyn am dair blynedd hyd at 2012.



Huw Vaughan Thomas
Swyddog Cyfrifyddu
31 Awst 2011

# Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan baragraff 13(1) o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae Trysorlys EM wedi rhoi cyfarwyddyd i'r Archwilydd Cyffredinol baratoi Datganiad Cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar y ffurf ac ar y sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon. Cafwyd cyfarwyddyd newydd ar gyfer Datganiad Cyfrifon 2010-11. Paratoir y cyfrifon ar sail gronnus ac mae'n rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Archwilydd Cyffredinol yn ogystal ag incwm a gwariant, newidiadau yn ecwiti trethdalwyr a llifau arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Cyflwyno Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) a gwneud y canlynol yn benodol:

- dilyn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- nodi p'un a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u nodwyd yn FReM, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn y datganiadau ariannol;
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw Swyddog Cyfrifyddu dynodedig Swyddfa Archwilio Cymru o dan baragraff 16(1) o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru. Caiff cyfrifoldebau'r Archwilydd Cyffredinol fel Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'n atebol amdano; am gadw cyfrifon cywir; am weinyddu mewn modd pwyllog a darbodus; am osgoi gwastraff ac afradlondeb; ac am ddefnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael mewn modd effeithlon ac effeithiol, eu nodi yn y *Memorandwm ar gyfer Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru* a gyhoeddwyd ar 2 Tachwedd 2010 gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol o dan baragraff 16 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

# Datganiad am Reolaeth Fewnol

## Cwmpas cyfrifoldeb

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n helpu i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion Swyddfa Archwilio Cymru, gan warchod yr arian cyhoeddus a'r asedau yr wyf yn gyfrifol amdanynt yn bersonol, yn unol â'r cyfrifoldebau a ddyrannwyd i mi yn y *Memorandwm ar gyfer Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru* a gyhoeddwyd ar 2 Tachwedd 2010 gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol.

Fel Archwilydd Cyffredinol, rwy'n annibynnol ar y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru. Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol (ac i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin) am drefnu, rheoli a staffio Swyddfa Archwilio Cymru yn gyffredinol ac am ei gweithdrefnau o ran materion ariannol a materion eraill. Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn archwilio fy Amcangyfrif blynyddol o incwm a gwariant.

## Diben y system rheolaeth fewnol

Cynlluniwyd y system rheolaeth fewnol i reoli risgiau i lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg o beidio â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion; felly dim ond sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd y gall ei roi, ac nid sicrwydd absoliwt. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a gynlluniwyd i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion Swyddfa Archwilio Cymru, gwerthuso'r tebygolrwydd y caiff y risgiau hynny eu gwireddu a'r effaith pe caent eu gwireddu, a rheoli'r risgiau hynny yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Mae'r system rheolaeth fewnol wedi bod ar waith yn Swyddfa Archwilio Cymru drwy gydol y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon, ac mae'n cydymffurfio â chanllawiau'r Trysorlys.

## Y gallu i ymdrin â risg

Y Pwyllgor Gweithredol sy'n bennaf cyfrifol am reoli risg yn Swyddfa Archwilio Cymru, ond caiff pob risg a nodir ei chlustnodi i uwch reolwr priodol. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg yn craffu ar drefniadau rheoli risg Swyddfa Archwilio Cymru.

Fy nod yw rheoli busnes Swyddfa Archwilio Cymru mewn modd sy'n ystyried y risgiau sy'n ein hwynebu, gan ddefnyddio systemau rheoli priodol. Ymgorfforir yr amcan hwn yn ein dulliau gwaith gan gynnwys gweithdrefnau llywodraethu diffiniedig, polisïau rheoli ansawdd, rheolaeth ariannol a systemau i nodi a rheoli risgiau. Fodd bynnag, mae lle i ddatblygu llawer o'r trefniadau hyn ymhellach.

Rydym yn gweithio i ddatblygu fframwaith rheoli perfformiad corfforaethol, a ategir gan wybodaeth rheoli ariannol fanwl, a fydd yn rhoi gwybodaeth reoli mwy priodol ac amserol i mi, fy Mhwyllgor Gweithredol a chyfarwyddwyr a rheolwr eraill i'n galluogi i nodi risgiau sy'n dod i'r amlwg ac ymateb iddynt. Caiff ein trefniadau llywodraethu eu cryfhau ymhellach dros y flwyddyn nesaf fel yr amlinellaf isod. Rydym hefyd wrthi'n adolygu ein polisïau a'n gweithdrefnau ariannol i wella ein trefniadau rheoli a diffinio cyfrifoldebau ac atebolrwydd yn gliriach.

Mae'r sector cyhoeddus yn wynebu heriau digyffelyb i raddfa, cwmpas a sefyllfa ariannol ei weithrediadau dros y blynyddoedd i ddod. Er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ymateb i'r amgylchedd newidiol hwn, caiff strategaeth gorfforaethol newydd ei datblygu, a fydd yn llywio gwaith cynllunio busnes ac yn helpu i ddiffinio atebolrwydd yn well yn Swyddfa Archwilio Cymru.

## Y fframwaith risg a rheoli

Hysbysais y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ym mis Hydref 2010 fod angen gwelliannau ar frys, i wneud Swyddfa Archwilio Cymru yn fwy agored ac atebol. Ers hynny rwyf wedi sefydlu strwythur newydd yn cynnwys tri phwyllgor llywodraethu i oruchwylio materion yn ymwneud â chydnabyddiaeth, adnoddau ac archwilio a rheoli risg. Mae'r tri phwyllgor yn bwyllgorau cwbl anweithredol a chaiff yr aelodau eu recriwtio yn unol ag egwyddorion Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus. Cyhoeddir agendâu a chofnodion y pwyllgorau llywodraethu ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru, a chrynhoir gwaith y pwyllgorau mewn Adroddiad Llywodraethu blynyddol.

O gofio natur ein busnes, nid ydym yn goddef lefel uchel o risg o ran barn archwilio broffesiynol, rheoleidd-dra a phriodoldeb, a rheolaeth ariannol.

Cyflogaf nifer fawr o gyfrifwyr cymwysedig sy'n rhwym wrth ofynion moesegol eu cyrff proffesiynol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cydymffurfio â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol. Yn benodol, cymhwysir Safon Ryngwladol Rheoli Ansawdd 1 i'n holl waith archwilio ariannol. Caiff y gwaith o reoli ansawdd archwiliadau ei hwyluso drwy ein proses archwilio a'r oruchwyliaeth hierarchaidd sydd ar waith o fewn prosiectau unigol. Mae gennym hefyd system o adolygiadau mewnol ac allanol. Cyflwynir adroddiadau i'r Pwyllgor Gweithredol ar ganlyniadau'r adolygiadau hyn. Mae'r rheolaethau hyn yn berthnasol i waith a wneir gan staff Swyddfa Archwilio Cymru a chwmnïau sector preifat sydd wedi'u contractio i weithio ar fy rhan.

Rydym yn cadw Cofrestr Risgiau Corfforaethol sy'n nodi risgiau strategol a gweithredol a allai ein rhwystro rhag cyflawni ein nodau. Rydym yn effro i'r angen i adolygu'r risgiau hyn yn barhaus a delio'n briodol ag amgylchiadau newydd wrth iddynt godi.

Mae'r Pwyllgor Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg wedi defnyddio'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol mewn modd cadarnhaol ac wedi gofyn am newidiadau amrywiol iddi drwy gydol y flwyddyn. Yn sgîl y newidiadau, mae'r risgiau a'r camau gweithredu a nodwyd i'w lliniaru a'u rheoli wedi'u disgrifio a'u cyflwyno'n gliriach. Diweddarwyd fframwaith rheoli risg Swyddfa Archwilio Cymru i adlewyrchu'r newidiadau i wasanaethau corfforaethol, ac mae bellach yn cynnwys crynodeb o statws risgiau corfforaethol. Caiff y Gofrestr Risgiau Corfforaethol ei hadolygu bob mis gan y Pwyllgor Gweithredol ac mae'n eitem sefydlog ar yr agenda i'w hadolygu yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg.

## Llywodraethu gwybodaeth

Ar y cyd â staff Swyddfa Archwilio Cymru, mae gennyf fynediad breintiedig ac eang i ddata a gwybodaeth i'm helpu i gyflawni'r swyddogaeth archwilio a sicrhau bod fy adroddiadau'n ffeithiol, yn gywir ac yn gyflawn. Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru ddyletswydd i barchu'r mynediad breintiedig hwn a sicrhau bod y wybodaeth bersonol a roddir iddi yn cael ei diogelu'n briodol.

I gyflawni'r ddyletswydd hon, mae gan Swyddfa Archwilio Cymru *Bolisi Diogelwch Gwybodaeth*, sy'n:

- nodi rhwymedigaethau pob cyflogai mewn perthynas â defnyddio cyfleusterau TGCh Swyddfa Archwilio Cymru;
- amlinellu'r gofynion cyfreithiol ar gyfer prosesu data;
- tynnu sylw at brif gyfrifoldebau'r holl staff o ran diogelwch;
- nodi trefniadau Swyddfa Archwilio Cymru i fonitro i ba raddau y cydymffurfir â'r polisi;
- egluro sut y gall staff gael mwy o gymorth a chanllawiau a sut y dylid rhoi gwybodaeth am ddigwyddiadau diogelwch.

Oni chydymffurfir â'r polisi hwn, gellir cynnal ymchwiliad a chymryd camau eraill yn unol â *Pholisi Disgyblu* Swyddfa Archwilio Cymru.

Ar ôl adolygu'r amgylchiadau a arweiniodd at arestio a chollfarnu'r cyn-Archwilydd Cyffredinol, Mr Colman, cyflwynwyd mwy o reolaethau dros y flwyddyn ddiwethaf a oedd yn cynnwys:

- atal mynediad o systemau Swyddfa Archwilio Cymru i gyfrifon e-bost personol a gwefannau rhwydweithio cymdeithasol;
- diwygio'r *Polisi Diogelu Gwybodaeth* i ddatgan yn glir y bydd cydymffurfiaeth staff â'r gyfraith a pholisi Swyddfa Archwilio Cymru yn cael ei monitro fel mater o drefn.

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau'n ymwneud â data personol y dylid hysbysu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ohonynt yn 2010-11.

## Adolygiad o effeithiolrwydd a phroblemau rheoli sylweddol

Fel Swyddog Cyfrifyddu, fi sy'n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Caiff yr adolygiad hwn ei lywio gan waith yr archwilwyr mewnol ac allanol a'm huwch reolwyr sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol.

Mae'r broses a roddwyd ar waith gennyf i sicrhau rheolaeth fewnol yn ystod y flwyddyn yn cynnwys rheoli risg a ffynonellau eraill o sicrwydd, gan gynnwys Archwiliadau Mewnol. Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn cysylltu'n rheolaidd â mi a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg yn ddigyfyngiad, ac mae'n mynd i bob un o gyfarfodydd y Pwyllgor.

Mae'r tîm Archwilio Mewnol yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar drefniadau i reoli risgiau busnes allweddol ac effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol Swyddfa Archwilio Cymru ac yn gwneud argymhellion ar gyfer gwella. Mae rheolwyr wedi derbyn yr argymhellion ac wedi'u rhoi ar waith neu maent yn cael eu rhoi ar waith ar hyn o bryd yn unol ag amserlenni y cytunwyd arnynt. Rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd i'r Pwyllgor Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg am statws argymhellion y tîm Archwilio Mewnol.

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd y tîm Archwilio Mewnol adolygiad o ymddygiad y cyn-Archwilydd Cyffredinol, Mr Colman, yn ei swydd. Cynhaliwyd adolygiad hefyd o gyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2009-10 a chynhaliodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol adolygiad arall o'r cyfrifon ar gyfer 2005 i 2010. Cyflwynwyd adroddiadau ar ganlyniadau'r tri adolygiad hyn i mi, fy Mhwyllgor Gweithredol, y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg yn ogystal â'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a gyhoeddodd eu bod yn gofnodion cyhoeddus. Canfu'r adolygiadau:

- nad oedd Mr Colman wedi cymhwyso rheolaethau'n gyson a'i fod wedi gwyro oddi wrthynt ar adegau;

- enghreifftiau lle yr anwybyddodd Mr Colman drefniadau rheoli cytûn a mabwysiedig a lle y methodd mewn rhai o'i gyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu ar ran Swyddfa Archwilio Cymru;

- bod nifer o wendidau ynghlwm wrth y broses a ddefnyddiwyd i baratoi cyfrifon 2009-10 a gyfrannodd at gamddatgan sefyllfa ariannol Swyddfa Archwilio Cymru ar 31 Mawrth 2010 yn y cyfrifon. Canfuwyd problemau tebyg mewn perthynas â blynyddoedd blaenorol hefyd.

Yn ogystal, nodwyd gwendidau penodol o ran cymeradwyo gofynion hyfforddi'r cyn-Archwilydd Cyffredinol (Mr Colman) a'r cyn-Brif Swyddog Gweithredu (Mr Anthony Snow). Mae'r nodyn ar golledion a thaliadau arbennig (Nodyn 17) yn nodi y gwariwyd £1,080 ar hyfforddiant a roddwyd i Mr Snow ar ôl ei ddiwrnod olaf o wasanaeth i Swyddfa Archwilio Cymru.

Yn ogystal, ystyriwyd yr adroddiadau hyn, ynghyd â gwybodaeth ychwanegol, gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol, a gyhoeddodd ei adroddiad ei hun ym mis Mawrth 2011.

Gwnaeth yr adroddiadau hyn nifer o argymhellion i wella cadernid y rheolaethau mewn perthynas â llunio, rheoli, adolygu a chraffu ar gyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru. Gwnaed argymhellion hefyd mewn perthynas â threfniadau llywodraethu ehangach yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru. Gwnaed cynnydd sylweddol mewn perthynas â'r argymhellion hyn, a chaiff y cynnydd hwn ei fonitro gan y Pwyllgor Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg.

Barn flynyddol gyffredinol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2010-11 yw y gall systemau Swyddfa Archwilio Cymru ddarparu rheolaeth fewnol effeithiol a rheoli risgiau'n effeithiol, a bod rheolaethau dros systemau ariannol allweddol yn ddigonol ar y cyfan i'w galluogi i reoli arian a rheolwyr yn effeithiol. Roedd yn fodlon hefyd fy mod i, fel Swyddog Cyfrifyddu, yn ymwybodol o'r angen am systemau rheoli digonol ac yn eu gweithredu. Daeth i'r casgliad y gellir priodoli'r diffygion penodol a sylweddol mewn rheolaeth fewnol yn 2009-10 a blynyddoedd blaenorol i achosion sylfaenol penodol a gaiff eu datrys drwy gyflwyno trefniadau llywodraethu a rheoli gwell.

Huw Vaughan Thomas
Swyddog Cyfrifyddu
31 Awst 2011

# Tystysgrif Archwilydd Cyffredinol yr Alban i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Archwilydd Cyffredinol Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r datganiadau ariannol hyn yn cynnwys y Crynodeb o Alldro Adnoddau, y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad ar y Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llif Arian Parod a'r Datganiad o Newidiadau o ran Ecwiti Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw cyfraith berthnasol a'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd, ac fel y cawsant eu dehongli a'u mabwysiadu yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol 2010/11 y Llywodraeth (FReM 2010/11).

Cyflwynir yr adroddiad hwn i'r partïon y mae wedi'i gyfeirio atynt yn unig yn unol â Llywodraeth Cymru 2006 ac nid at unrhyw ddiben arall. Nid wyf yn ymgymryd â chyfrifoldebau i drydydd partïon.

## Priod gyfrifoldebau Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilydd Cyffredinol yr Alban

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a nodwyd ar dudalen 61, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fodloni ei hun eu bod yn rhoi darlun cywir a theg, ac mae hefyd yn gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra gwariant a derbyniadau. Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon) a mynegi barn arnynt. Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr. Rwyf hefyd yn gyfrifol am roi barn ar reoleidd-dra gwariant a derbyniadau.

## Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Mae archwiliad yn cynnwys cael tystiolaeth am symiau, datgeliadau a rheoleidd-dra gwariant a derbyniadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: pa un a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Archwilydd Cyffredinol Cymru a pha un a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan y Swyddog Cyfrifyddu; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol. Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr adroddiad blynyddol er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

## Barn ar y datganiadau ariannol

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg, yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a chyfarwyddiadau'r Trysorlys o dan y Ddeddf honno, o sefyllfa Archwilydd Cyffredinol Cymru ar 31 Mawrth 2011 a'r alldro adnoddau net, y gofyniad arian parod net, y gwariant net cynhwysfawr, newidiadau mewn cronfeydd wrth gefn a llifau arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben bryd hynny;

- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd, fel y cawsant eu dehongli a'u mabwysiadu gan FReM 2010/11;

- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a chyfarwyddiadau a wnaed gan Drysorlys EM o dan y Ddeddf honno.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, mae'r holl wariant ac incwm a ddangoswyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a chyfarwyddiadau a wnaed gan y Trysorlys o dan y Ddeddf honno;

- mae'r wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

## Materion y mae'n ofynnol i mi gyflwyno adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y mae'n ofynnol i mi gyflwyno adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol na'r rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
- nid yw'r Datganiad am Reolaeth Fewnol yn cydymffurfio â chanllawiau perthnasol Trysorlys EM.

## Adroddiad

Mae f'adroddiad ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar dudalennau 93 i 96.

Robert W Black
Archwilydd Cyffredinol yr Alban
110 George Street
Caeredin
EH2 4LH

9 Medi 2011

Dyma gyfieithiad o Dystysgrif Archwilio Archwilydd Cyffredinol yr Alban a gafodd ei baratoi a'i lofnodi yn Saesneg.

This is a translation of the Audit Certificate of the Auditor General for Scotland which was prepared and signed in English.

# Crynodeb o Alldro Adnoddau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011

| | 2010-11 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | AMCANGYFRIF | | | ALLDRO | | | Cyfanswm alldro net o gymharu â'r gyllideb |
| | Gwariant gros | Incwm | CYFANSWM NET | Gwariant gros | Incwm | CYFANSWM NET | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Refeniw** | **15,819** | **10,772** | **5,047** | **11,820** | **7,913** | **3,907** | **1,140** |
| **Cyfalaf** | | | | **27** | | **27** | **(27)** |
| **Addasiad o'r cyfnod blaenorol** | | | | | | **544** | **(544)** |
| **CYFANSWM ADNODDAU** | | | **5,047** | | | **4,478** | **569** |
| **GOFYNIAD ARIAN PAROD NET (gweler y cysoniad isod)** | | | **5,074** | | | **4,445** | **629** |

# Cysoni Cyfanswm Adnoddau â Gofyniad Arian Parod Net

| | Amcangyfrif £'000 | Alldro £'000 | Amrywiant £'000 |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm adnoddau (fel uchod)** | 5,047 | 4,478 | 569 |
| **Addasiadau:** | | | |
| Eitemau anariannol (dibrisiant) | (200) | (108) | (92) |
| Symudiadau mewn cyfalaf gweithio ac eithrio arian parod | 227 | 619 | (392) |
| Addasiad o'r flwyddyn flaenorol | | (544) | 544 |
| **Gofyniad arian parod net** | 5,074 | 4,445 | 629 |

Mae'r Crynodeb o Alldro Adnoddau uchod yn crynhoi sefyllfa Swyddfa Archwilio Cymru yn erbyn yr elfennau hynny o gyllideb y Swyddfa sy'n amodol ar gymeradwyaeth drwy gynnig cynnig cyllidebol y Cynulliad Cenedlaethol. Yr elfennau dan sylw yw swm yr adnoddau a'r arian parod y gellir eu tynnu i lawr o Gronfa Gyfunol Cymru a swm yr incwm a gynhyrchir drwy waith grant yn y GIG, llywodraeth ganolog, llywodraeth leol a ffynonellau amrywiol y gellir ei gadw. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi ble mae'r ffigurau uchod wedi'u codi o'r ffigurau cyfatebol yn y Datganiad Cyfrifon, ac yn dangos sut y dosbarthwyd y ffigurau hynny yn y Crynodeb o Alldro Adnoddau.

| | Nodyn | Cyfanswm<br><br><br><br><br>£'000 | Wedi'u cynnwys yn y Crynodeb o Alldro Adnoddau<br>£'000 | Heb eu cynnwys yn y Crynodeb o Alldro Adnoddau<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|
| Incwm | 2 | 19,434 | 7,913 | 11,521 |
| Gwariant | 2 | 22,471 | 11,820 | 10,651 |
| Addasiad o'r flwyddyn flaenorol | Ecwiti Trethdalwyr | 1,336 | 544 | 792 |
| Dibrisiant | 7 | 265 | 108 | 157 |
| Symudiadau mewn cyfalaf gweithio | Datganiad Llif Arian Parod | (1,518) | (619) | (899) |
| Ychwanegiadau cyfalaf | 8 a 9 | 67 | 27 | 40 |

Y symudiadau mewn cyfalaf gweithio yn y tabl uchod yw swm net y symudiadau mewn symiau derbyniadwy (£319,000) a symiau taladwy (£1,837,000) a ddangosir yn y Datganiad Llif Arian Parod.

**Esboniad o amrywiannau**

1. Mae'r tanwariant net uchod yn deillio o'r arbedion a'r effeithlonrwydd a sicrhawyd yn ystod y flwyddyn, fel yr amlinellir yn yr Adolygiad Ariannol.
2. Ceir rhagor o wybodaeth am yr addasiad o'r flwyddyn flaenorol yn Nodyn 21.

**Crynodeb o arian parod sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru**

Yn sgîl gweithrediadau Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod blwyddyn ariannol 2010-11, mae swm o £629,000 yn daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru.

Fel y nodwyd yn yr Adolygiad Ariannol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu gofyn am ganiatâd y Cynulliad Cenedlaethol i gadw adnodd cyfatebol er mwyn helpu i ariannu cynllun diswyddo gwirfoddol Swyddfa Archwilio Cymru, gan helpu i leihau ein costau gweithredu blynyddol yn y dyfodol.

**Ffigurau cymharol 2009-10**

2010-11 yw'r flwyddyn gyntaf y lluniwyd Crynodeb o Alldro Adnoddau. Yn 2009-10 darparwyd y wybodaeth gyfatebol am atebolrwydd yn Nodyn 10 i'r datganiadau ariannol. Nodwyd bryd hynny mai £5,047,000 oedd yr alldro adnoddau ac mai £5,020,000 oedd y gofyniad arian parod alldro, ac roedd y ddau ffigur yn cyd-fynd â'r Amcangyfrifon a awdurdodwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol. Nid oedd y ffigurau hyn yn cynnwys amcangyfrif ar gyfer gwariant cyfalaf nac yn rhoi cyfrif amdano. Tua £184,000 oedd y gyfran berthnasol o wariant cyfalaf y dylid fod wedi'i hamcangyfrif a'i chyfrifo yn 2009-10.

Rhoddwyd cyfrif am agweddau eraill ar atebolrwydd mewn perthynas â ffigurau cymharol yn yr Addasiad o'r Cyfnod Blaenorol.

**Mae'r nodiadau canlynol ar dudalennau 75 i 92 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.**

# Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011

| | Nodyn | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2011 £000 | Blwyddyn a ailddatganwyd hyd at 31 Mawrth 2010 £000 |
|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | |
| Staff a chostau cysylltiedig | 4 | 16,086 | 18,261 |
| Gwasanaethau allanol | 6 | 3,379 | 4,096 |
| Costau gweithredu eraill | 7 | 2,993 | 3,806 |
| | | 22,458 | 26,163 |
| **Incwm** | | | |
| Incwm o ffioedd archwilio | | 17,340 | 16,606 |
| Incwm arolygu | | 1,836 | 3,599 |
| Incwm gweithredu arall | 3 | 250 | 371 |
| | | 19,426 | 20,576 |
| **Gwariant net** | | **(3,032)** | **(5,587)** |
| Llog taladwy/derbyniadwy | | 8 | 5 |
| Treth gorfforaeth | | (13) | (1) |
| **Gwariant net ar ôl treth a llog** | | **(3,037)** | **(5,583)** |
| **Gwariant cynhwysfawr arall** | | 0 | 0 |
| **Cyfanswm gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn** | | **(3,037)** | **(5,583)** |

**Mae'r nodiadau canlynol ar dudalennau 75 i 92 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.**

Ni chafwyd unrhyw weithrediadau a derfynwyd, caffaeliadau na gwarediadau yn ystod y cyfnod nac unrhyw enillion na cholledion anghydnabyddedig.

Mae ffigurau 2009-10 wedi'u hailddatgan. Ceir rhagor o wybodaeth yn Nodyn 21.

# Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2011

| | Nodyn | 31 Mawrth 2011 £000 | Ailddatganwyd 31 March 2010 £000 | Ailddatganwyd 31 March 2009 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 8 | 746 | 1,268 | 1,134 |
| Asedau anniriaethol | 9 | 442 | 120 | 0 |
| *Cyfanswm yr asedau anghyfredol* | | 1,188 | 1,388 | 1,134 |
| **Asedau cyfredol** | | | | |
| Symiau masnach derbyniadwy a gwaith sy'n mynd rhagddo | 10 | 1,606 | 2,027 | 2,356 |
| Symiau derbyniadwy eraill | 11 | 562 | 460 | 532 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | 12 | 4,016 | 3,296 | 1,056 |
| *Cyfanswm asedau cyfredol* | | 6,184 | 5,783 | 3,944 |
| *Cyfanswm asedau* | | 7,372 | 7,171 | 5,078 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | | |
| Symiau masnach taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill | 13 | 1,671 | 1,584 | 1,505 |
| Incwm gohiriedig | 14 | 3,329 | 4,702 | 3,368 |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | 15 | 458 | 1,013 | 213 |
| Cronfa Gyfunol Cymru (gweler y Crynodeb o Alldro Adnoddau) | | 629 | 0 | 0 |
| *Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol* | | 6,087 | 7,299 | 5,086 |
| *Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol* | | 1,285 | (128) | (8) |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | | |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | 15 | 1,123 | 1,118 | 675 |
| *Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol* | | 1,123 | 1,118 | 675 |
| *Asedau llai rhwymedigaethau* | | 162 | (1,246) | (683) |
| ***Ecwiti trethdalwyr*** | | | | |
| Cronfa gyffredinol wrth gefn | | 162 | (1,246) | (683) |
| *Cyfanswm cronfeydd wrth gefn* | | 162 | (1,246) | (683) |

**Mae'r nodiadau canlynol ar dudalennau 75 i 92 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.**



Huw Vaughan Thomas
Swyddog Cyfrifyddu
31 Awst 2011

# Datganiad o Lifau Arian Parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011

| | Nodyn | 2010-11<br>£000 | Ailddatganwyd 2009-10<br>£000 |
|---|---|---|---|
| ***Llifau arian parod o weithgareddau gweithredu*** | | | |
| Gwariant net cynhwysfawr | | (3,037) | (5,583) |
| Anariannol: dibrisiant | 7 | 265 | 203 |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | 10,11 | 319 | 401 |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | 13,14,15 | (1,837) | 2,656 |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | (4,290) | (2,323) |
| ***Llifau arian parod o weithgareddau buddsoddi*** | | | |
| Prynu eiddo, offer a chyfarpar | | (5) | (337) |
| Prynu asedau anniriaethol | | (59) | (120) |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | (64) | (457) |
| ***Llifau arian parod o weithgareddau ariannu*** | | | |
| Cronfa Gyfunol Cymru | | 5,074 | 5,020 |
| **Ariannu net** | | 5,074 | 5,020 |
| **Symudiadau mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod** | 12 | **720** | **2,240** |

**Mae'r nodiadau canlynol ar dudalennau 75 i 92 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.**

# Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011

| | £000 |
|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2009** | |
| - Gwreiddiol | 108 |
| - Addasiad o'r flwyddyn flaenorol | (791) |
| - Ailddatganwyd | (683) |
| | |
| **Newidiadau yn ecwiti trethdalwyr yn 2009-10** | |
| Cyfanswm gwariant cynhwysfawr | (5,583) |
| Arian o Gronfa Gyfunol Cymru | 5,020 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2010** | (1,246) |
| | |
| **Newidiadau yn ecwiti trethdalwyr yn 2010-11** | |
| Cyfanswm gwariant cynhwysfawr | (3,037) |
| Arian o Gronfa Gyfunol Cymru | 5,074 |
| | 791 |
| Yn daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | (629) |
| **Balans wrth gau ar 31 Mawrth 2011** | 162 |

Mae addasiadau o'r flwyddyn flaenorol ar 31 Mawrth 2009 ac yn ystod 2009-10 wedi effeithio ar ecwiti trethdalwyr ar 31 Mawrth 2010. Mae'r nodyn canlynol yn cysoni'r ffigur a nodwyd yn wreiddiol a'r ffigur a nodwyd yn y datganiad uchod:

| | Nodyn | | £000 |
|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2010 (gwreiddiol)** | | | 117 |
| Addasiadau o'r flwyddyn flaenorol | | | |
| - Darpariaeth ychwanegol 31 Mawrth 2009 | 15 | (791) | |
| - Darpariaeth ychwanegol 2009-10 ar gyfer ymddeoliadau cynnar a diswyddiadau | 15 | (747) | |
| - Rhyddhau darpariaeth 2009-10 ar gyfer ymddeoliadau cynnar a diswyddiadau | 15 | 202 | |
| - Ymddeoliadau cynnar a diswyddiadau | | (1,336) | |
| - Cronfa Gyfunol Cymru | | (27) | (1,363) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2010 (ailddatganwyd)** | | | (1,246) |

**Mae'r nodiadau canlynol ar dudalennau 75 i 92 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.**

# Nodiadau

## Nodyn 1: Confensiynau a pholisïau cyfrifyddu

## Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â FReM 2010-11, a gyhoeddwyd gan yr awdurdodau perthnasol. Mae'r polisïau cyfrifyddu yn FReM yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol a fabwysiadwyd gan yr UE fel y'u haddaswyd neu'u dehonglwyd yng nghyd-destun y sector cyhoeddus. Lle bo'r FReM yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y barnwyd ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau penodol yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn rhoi darlun cywir a theg o'r sefyllfa. Disgrifir y polisïau penodol a fabwysiadwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol isod.  Fe'u cymhwyswyd yn gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyrid eu bod yn berthnasol mewn perthynas â'r cyfrifon.

(i) Paratoir y cyfrifon o dan y confensiwn cost hanesyddol, a addaswyd i ystyried y broses o ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar ac asedau anniriaethol lle y bônt yn berthnasol i'w gwerth i'r busnes drwy gyfeirio at eu costau cyfredol, ar ffurf a gyfarwyddir gan Drysorlys EM, o dan baragraff 13(1) o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Fe'u cyflwynir mewn punnoedd Prydeinig.

(ii) Mae safonau penodol a diwygiadau i safonau presennol wedi'u cyhoeddi ac maent yn orfodol ar gyfer cyfnodau cyfrifyddu sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2011 neu gyfnodau hwyrach, ond ni chawsant eu mabwysiadu'n gynnar. Ni ddisgwylir i unrhyw rai o'r safonau hyn gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol hyn.

(iii) Cydnabyddir incwm ffioedd gros ac incwm gweithredu arall yn seiliedig ar werth gwaith y codir tâl amdano heb gynnwys TAW.

(iv) Caiff incwm gweithredu, p'un a ddaw drwy grantiau uniongyrchol gan y llywodraeth neu ffioedd a godir ar gyrff a archwilir, ei gredydu i'r flwyddyn gyfrif y gwneir y gwaith ynddi. Caiff incwm a dderbynnir cyn i'r gwaith gael ei wneud ei ddosbarthu fel incwm gohiriedig. Ni chaiff arian a dynnir o Gronfa Gyfunol Cymru ei ystyried yn grant uniongyrchol gan y llywodraeth a chaiff ei gredydu'n uniongyrchol i ecwiti trethdalwyr.

(v) Priodolwyd costau yr eir iddynt mewn gwaith archwilio (h.y. costau staff a chwmnïau dan gontract) yn uniongyrchol i'r gweithgaredd perthnasol; yna caiff gwariant ei godi yn erbyn arian nas dyrannwyd o Gronfa Gyfunol Cymru; a phriodolir gorbenion nas dyrannwyd i bob gweithgaredd yn seiliedig ar werth y gweithgaredd.

(vi) Mae PCSPS yn gynllun buddiannau diffiniedig amlgyflogwr nas ariennir y mae'r cyflogai a'r cyflogwr yn cyfrannu ato. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cydnabod y gost ddisgwyliedig o ddarparu pensiynau ar sail systematig a rhesymol yn ystod y cyfnod y bydd yn elwa ar wasanaethau cyflogeion drwy wneud taliadau i PCSPS a gyfrifir ar sail gronnus.

(vii) Caiff rhenti prydlesi gweithredu eu codi ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles. Caiff cymhellion prydles a dderbynnir eu cydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr fel rhan hanfodol o gyfanswm y treuliau prydles. Os yw Swyddfa Archwilio Cymru yn cael budd o gyfnodau di-rent yn ystod prydlesi, caiff y budd hwnnw ei gredydu'n gyfartal dros y cyfnod o ddechrau'r brydles hyd nes yr adolygiad rhent cyntaf.

(viii) Caiff asedau anniriaethol, sef trwyddedau meddalwedd, eu datgan fel cost hanesyddol wedi'i hamorteiddio. Caiff yr asedau eu hamorteiddio ar sail llinell syth naill ai dros gyfnod y drwydded neu oes economaidd ddefnyddiol yr ased, pa un bynnag sydd fyrraf. Cyfrifir amorteiddiad o ddyddiad dechrau oes ddefnyddiol yr ased anniriaethol.

(ix) Darperir dibrisiant ar bob ased eiddo, offer a chyfarpar ac fe'i cyfrifir i dalu am gost pob ased, llai y gwerth amcangyfrifedig dros ben, mewn rhandaliadau blynyddol cyfwerth yn ystod ei oes ddefnyddiol fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Dodrefn a ffitiadau | 10 mlynedd |
| Offer cyfrifiadurol | 3 blynedd |
| Offer swyddfa | 5 mlynedd |

O dan bolisi cyfalafu'r Archwilydd Cyffredinol, cyfalafir offer a meddalwedd gyfrifiadurol unigol a chyfun gwerth dros £5,000; offer arall gwerth dros £1,000 a gwaith adnewyddu swyddfeydd. Cyfrifir dibrisiant o ddyddiad dechrau oes ddefnyddiol yr ased.

(x) Caiff symiau derbyniadwy a gwaith sy'n mynd rhagddo eu prisio ar werth gwireddadwy amcangyfrifedig. Mae gwaith sy'n mynd rhagddo yn cyfeirio at symiau sy'n daladwy am waith a gwblhawyd lle nad yw'r ffi wedi'i chodi eto neu lle bo'r gwaith a wnaed yn perthyn i gyfnodau cyfrifyddu gwahanol. Fe'i nodir ar sail y gost lawn llai darpariaeth am golledion rhagweladwy a symiau a gafodd eu bilio ar y cyfrif. Mae'r cyfrifon yn darparu ar gyfer dyledion nas telir yn seiliedig ar y tebygolrwydd na fydd modd adfer 10 y cant o ddyledion sy'n hŷn na 60 o ddiwrnodau.

(xi) Caiff darpariaeth ar gyfer costau dadfeilio eiddo ar brydles yn y dyfodol ei chynnwys yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol. Fe'i cronnir drwy daliad dadfeilio blynyddol, a gyfrifir drwy gymhwyso cyfradd ddadfeilio flynyddol i arwynebedd llawr yr asedau ar brydles.

(xii) Mae incwm gohiriedig yn cyfeirio at incwm sydd wedi'i filio ond sydd heb ei gydnabod eto. Fe'i cyfrifir drwy asesu i ba raddau y mae prosiectau wedi'u cwblhau, fel canran, gan gydnabod y gyfran honno o incwm ffioedd disgwyliedig fel refeniw yn ystod y cyfnod a thrin incwm sydd wedi'i filio ond heb ei gydnabod fel incwm gohiriedig.

(xiii) Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, rhaid llunio amcangyfrifon a thybiaethau amrywiol sy'n effeithio ar y polisïau cyfrifyddu a gymhwysir a'r symiau a gofnodir. Caiff pob amcangyfrif a dyfarniad o'r fath ei adolygu'n barhaus. Caiff diwygiadau i amcangyfrifon cyfrifyddu eu cydnabod yn y cyfnod y diwygiwyd yr amcangyfrif ac ym mhob cyfnod y mae'r diwygiad yn effeithio arno yn y dyfodol.

Gwneir y defnydd mwyaf o amcangyfrifon a dyfarniadau pwysig yn y meysydd canlynol:

- Mae darpariaethau ar gyfer dileu swyddi a diswyddiadau yn seiliedig ar ragamcanion o daliadau pensiwn disgwyliedig yn y dyfodol.
- Caiff gwaith sy'n mynd rhagddo ei brisio ar sail canran y gwaith heb ei filio sydd wedi'i gwblhau. Cyfrifir incwm gohiriedig ar sail asesiad o'r graddau y mae prosiect wedi'i gwblhau, fel yr eglurir uchod.
- Cyfrifir mai'r ddarpariaeth ar gyfer drwgddyledion a dyledion amheus yw 10 y cant o ddyledion sy'n hŷn na 60 o ddiwrnodau.
- Caiff asedau anghyfredol perthnasol eu hadolygu'n flynyddol i weld a ydynt wedi lleihau mewn gwerth mewn unrhyw ffordd.

(xiv) Mae digwyddiadau ar ôl dyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol a all gael eu datgelu neu eu haddasu yn unol ag anghenion Safon Gyfrifyddu Ryngwladol (IAS) 10 yn cael eu hystyried hyd at y dyddiad y caiff y cyfrifon eu hawdurdodi i'w cyhoeddi. Dehonglir hyn fel y dyddiad y caiff adroddiad yr Archwilydd Annibynnol ei lofnodi.

# Nodyn 2: Dadansoddiad o wariant net fesul segment

Crynhoir incwm, ariannu a chostau gweithgareddau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2010-11 yn y tabl canlynol:

| | Archwiliadau llywodraeth leol | Ardystio grantiau llywodraeth leol | Y GIG | Llywodraeth ganolog | Gweithgareddau a ariennir gan Gronfa Gyfunol Cymru | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £’000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Incwm ac ariannu** | | | | | | |
| Ffioedd archwilio | 9,685 | 1,870 | 4,181 | 1,604 | | 17,340 |
| Grant | 1,836 | | | | | 1,836 |
| Arian o Gronfa Gyfunol Cymru | | | | | 5,047 | 5,047 |
| Cyfanswm | 11,521 | 1,870 | 4,181 | 1,604 | 5,047 | 24,223 |
| Gwariant | (10,651) | (1,459) | (3,697) | (1,604) | (5,047) | (22,458) |
| | 870 | 411 | 484 | 0 | 0 | 1,765 |

Cysoni â’r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

| | |
|---|---|
| **Yn unol â'r dadansoddiad uchod** | 1,765 |
| Arian o Gronfa Gyfunol Cymru | (5,047) |
| Treth gorfforaeth | (13) |
| Llog derbyniadwy | 8 |
| Incwm arall | 250 |
| Yn unol â'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr | (3,037) |

Roedd ffigurau 2009-10 fel a ganlyn:

| | **Incwm ac ariannu** | **Gwariant** | **Gwariant net** |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| Llywodraeth ganolog | 6,774 | (6,785) | (11) |
| Llywodraeth leol | 12,973 | (12,964) | 9 |
| Iechyd | 5,881 | (5,870) | 11 |
| Cyfansymiau | 25,628 | 25,619 | 9 |

# Nodyn 3: Incwm gweithredu arall

| | **Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2011 £000** | **Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2010 £000** |
|---|---|---|
| Costau cyfreithiol a ad-dalwyd | 3 | 0 |
| Cyhoeddiadau a chynadleddau | 0 | 17 |
| Secondiadau staff Swyddfa Archwilio Cymru i sefydliadau eraill | 94 | 344 |
| Incwm amrywiol | 153 | 10 |
| | 250 | 371 |

# Nodyn 4: Staff a chostau cysylltiedig

| | | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2011 £000 | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2010 £000 |
|---|---|---|---|
| (i) | **Costau staff** | | |
| | Cyflogau staff | 10,702 | 11,370 |
| | Cyflogau aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg | 32 | 27 |
| | Costau nawdd cymdeithasol | 1,045 | 1,033 |
| | Costau pensiwn | 2,135 | 2,864 |
| | | 13,914 | 15,294 |
| | Cynllun ceir | 684 | 777 |
| | Tanysgrifiadau a buddiannau eraill | 48 | 45 |
| | | 14,646 | 16,116 |
| | Contractwyr archwilio ac arolygu | 887 | 725 |
| | | 15,533 | 16,841 |
| | Costau dileu swyddi, ymddeoliadau cynnar a diswyddiadau | 553 | 1,420 |
| | | 16,086 | 18,261 |
| | Mae costau staff a secondiwyd i sefydliadau eraill wedi'u cynnwys yn y cyflogau | 438 | 344 |

Ceir rhagor o wybodaeth am daliadau cydnabyddiaeth a hawliau pensiwn uwch reolwyr yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth ar dudalennau 56 i 60.

Mae staff Swyddfa Archwilio Cymru yn gymwys i ymuno â PCSPS. Cynllun buddiannau diffiniedig amlgyflogwr nas ariennir yw hwn ond ni all Swyddfa Archwilio Cymru nodi ei chyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Cynhaliwyd prisiad llawn gan yr actiwari ar 31 Mawrth 2010. Ceir manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Blwydd-daliadau Sifil (www.civilservice-pensions.gov.uk).

Mae cyfraddau cyfraniadau'r cyflogwr yn seiliedig ar lefelau cyflogau ac yn amrywio rhwng 16.7 y cant a 24.3 y cant (2009-10: 16.7 y cant i 24.3 y cant). Cyfanswm cyfraniadau'r cyflogwr oedd £2,129,000 (2009-10: £2,317,000). Mae actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwyr bob pedair blynedd ar ôl ailbrisio'r cynllun yn llawn. Mae'r cyfraddau cyfrannu yn adlewyrchu buddiannau wrth iddynt gael eu cronni, nid pan eir i'r costau yn union, ac maent yn adlewyrchu profiad blaenorol o'r cynllun.

Gall cyflogeion ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, sef pensiwn cyfranddeiliaid y mae'r cyflogwr yn cyfrannu ato. Manteisiodd un cyflogai ar y dewis hwn yn ystod y flwyddyn.

| | | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2011 | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2010 |
|---|---|---|---|
| (ii) | **Niferoedd staff** | | |
| | Nifer y staff parhaol cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn y DU yn ystod y flwyddyn, ar gyfartaledd | 228 | 242 |
| | Contractwyr archwilio ac arolygu (cyfartaledd yn ystod y flwyddyn) | 17 | 21 |

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn defnyddio nifer o gontractwyr archwilio ac arolygu dros dro ar adegau penodol yn ystod y flwyddyn i ateb y galw am adnoddau ar gyfnodau brig.

# Nodyn 5: Dileu swyddi, ymddeoliadau cynnar a diswyddiadau

Gadawodd nifer o gyflogeion o dan becynnau ymadael yn ystod 2010-11 a 2009-10 fel y crynhoir isod:

| | 2010-11 | | | 2009-10 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Band costau'r pecyn ymadael** | **Nifer y diswyddiadau gorfodol** | **Nifer yr ymadawiadau cytûn eraill** | **Cyfanswm y pecynnau ymadael fesul band costau** | **Nifer y diswyddiadau gorfodol** | **Nifer yr ymadawiadau cytûn eraill** | **Cyfanswm y pecynnau ymadael fesul band costau** |
| Llai na £10,000 | | 1 | 1 | | | |
| £10,000 – £25,000 | | 2 | 2 | | 1 | 1 |
| £25,000 – £50,000 | | 5 | 5 | | | |
| £50,000 – £100,000 | | 1 | 1 | | | |
| £100,000 – £150,000 | | 6 | 6 | | | |
| £200,000 – £250,000 | | | | | 1 | 1 |
| £300,000 – £350,000 | | 1 | 1 | | | |
| £700,000 – £750,000 | | | | 1 | | 1 |

Rhoddodd Swyddfa Archwilio Cymru gynllun diswyddo gwirfoddol ar waith yn ystod 2010-11. Deilliodd y cynllun hwn o waith cynllunio'r gweithlu ac mae wedi arwain at leihad yn sylfaen costau Swyddfa Archwilio Cymru.

Talwyd costau ymddeoliadau cynnar ac ymadawiadau yn unol â pholisi Swyddfa Archwilio Cymru, y cytunwyd arno gydag undebau llafur cydnabyddedig. Caiff costau ychwanegol na thelir gan PCSPS eu talu gan Swyddfa Archwilio Cymru.

# Nodyn 6: Gwasanaethau allanol

| | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2011 £000 | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2010 £000 |
|---|---|---|
| Taliadau i gwmnïau cyfrifyddu preifat | 3,264 | 3,880 |
| Costau ymchwil a chostau ymgynghori eraill | 115 | 216 |
| | 3,379 | 4,096 |

Mae'r costau hyn yn ymwneud â gwasanaethau allanol a brynwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol sy'n uniongyrchol gysylltiedig â swyddogaethau archwilio, arolygu neu ymchwilio.

# Nodyn 7: Costau gweithredu eraill

| | Blwyddyn hyd at 31Mawrth 2011 £000 | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2010 £000 |
|---|---|---|
| Llety | | |
| - Costau prydlesi rhent | 402 | 455 |
| - Costau eraill | 369 | 393 |
| Cyflenwadau a gwasanaethau | 1,227 | 1,691 |
| Recriwtio a throsglwyddiadau | 33 | 15 |
| Dibrisiant | 265 | 203 |
| Ffi archwilio | 25 | 13 |
| Ffioedd proffesiynol | 251 | 158 |
| Teithio a chynhaliaeth | 448 | 528 |
| Hyfforddiant | 226 | 206 |
| Cynnydd/(gostyngiad) yn y ddarpariaeth ar gyfer drwgddyledion | (253) | 144 |
| | 2,993 | 3,806 |

Mae ffioedd proffesiynol yn cynnwys ffioedd cyfreithiol a ffioedd proffesiynol eraill ac yn ystod 2010-11 roeddent yn cynnwys costau eithriadol anghylchol.

# Nodyn 8: Eiddo, offer a chyfarpar

| | Dodrefn a ffitiadau | Technoleg gwybodaeth | Offer swyddfa | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| *Cost* | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2010 | 918 | 884 | 36 | 1,838 |
| Ychwanegiadau | 7 | 1 | 0 | 8 |
| Gwarediadau | (5) | 0 | (4) | (9) |
| Ailddosbarthwyd yn asedau anniriaethol | 0 | (625) | 0 | (625) |
| Ar 31 Mawrth 2011 | 920 | 260 | 32 | 1,212 |
| *Dibrisiant* | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2010 | 214 | 332 | 24 | 570 |
| Darparwyd yn ystod y cyfnod | 91 | 142 | 4 | 237 |
| Gwarediadau | (3) | (0) | (4) | (7) |
| Ailddosbarthwyd yn asedau anniriaethol | 0 | (334) | 0 | (334) |
| Ar 31 Mawrth 2011 | 302 | 140 | 24 | 466 |
| *Gwerth llyfr net* | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2011 | 618 | 120 | 8 | 746 |
| Ar 31 Mawrth 2010 | 704 | 552 | 12 | 1,268 |
| *Ariannu asedau* | | | | |
| A berchenogir | 618 | 120 | 8 | 746 |

| | Dodrefn a ffitiadau | Technoleg gwybodaeth | Offer swyddfa | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| *Cost* | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2009 | 843 | 653 | 27 | 1,523 |
| Ychwanegiadau | 76 | 252 | 9 | 337 |
| Gwarediadau | (1) | (21) | 0 | (22) |
| Ar 31 Mawrth 2010 | 918 | 884 | 36 | 1,838 |
| *Dibrisiant* | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2009 | 127 | 244 | 18 | 389 |
| Darparwyd yn ystod y cyfnod | 88 | 109 | 6 | 203 |
| Gwarediadau | (1) | (21) | 0 | (22) |
| Ar 31 Mawrth 2010 | 214 | 332 | 24 | 570 |
| *Gwerth llyfr net* | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2010 | 704 | 552 | 12 | 1,268 |
| Ar 31 Mawrth 2009 | 716 | 409 | 9 | 1,134 |
| *Ariannu asedau* | | | | |
| A berchenogir | 704 | 552 | 12 | 1,268 |

Ym marn yr Archwilydd Cyffredinol, nid oes gwahaniaeth perthnasol rhwng gwerth llyfr net asedau ar werthoedd presennol ac ar eu cost hanesyddol.

# Nodyn 9: Asedau anniriaethol

Trwyddedau meddalwedd yw asedau anniriaethol.

| | Cyfanswm |
|---|---|
| | **£000** |
| *Cost* | |
| Ar 31 Mawrth 2010 | 120 |
| Ychwanegiadau | 59 |
| Ailddosbarthwyd o asedau TG | 625 |
| Ar 31 Mawrth 2011 | 804 |
| *Amorteiddio* | |
| Ar 31 Mawrth 2010 | 0 |
| Darparwyd yn ystod y cyfnod | 28 |
| Ailddosbarthwyd o asedau TG | 334 |
| Ar 31 Mawrth 2011 | 362 |
| *Gwerth llyfr net* | |
| Ar 31 Mawrth 2011 | 442 |
| Ar 31 Mawrth 2010 | 120 |

| | Cyfanswm |
|---|---|
| | **£000** |
| *Cost* | |
| Ar 31 Mawrth 2009 | 0 |
| Ychwanegiadau | 120 |
| Ar 31 Mawrth 2010 | 120 |
| *Amorteiddio* | |
| Ar 31 Mawrth 2009 | 0 |
| Darparwyd yn ystod y cyfnod | 0 |
| Ar 31 Mawrth 2010 | 0 |
| *Gwerth llyfr net* | |
| Ar 31 Mawrth 2010 | 120 |
| Ar 31 Mawrth 2009 | 0 |

# Nodyn 10: Symiau masnach derbyniadwy a gwaith sy'n mynd rhagddo

| | 31 Mawrth 2011 £000 | 31 Mawrth 2010 £000 | 31 Mawrth 2009 £000 |
|---|---|---|---|
| **Symiau masnach derbyniadwy** | | | |
| – Llywodraeth ganolog | 91 | 173 | 134 |
| – Llywodraeth leol | 495 | 542 | 825 |
| – Y GIG | 402 | 715 | 221 |
| **Gwaith sy'n mynd rhagddo** | | | |
| – Llywodraeth ganolog | 355 | 420 | 486 |
| – Llywodraeth leol | 211 | 151 | 346 |
| – Y GIG | 52 | 26 | 344 |
| | 1,606 | 2,027 | 2,356 |

Darpariaethau drwgddyledion a dyledion amheus (caiff y rhain eu clirio yn erbyn y dosbarth priodol o ddyledwr yn y dadansoddiad uchod):

| | 31 Mawrth 2011 £000 | 31 Mawrth 2010 £000 | 31 Mawrth 2009 £000 |
|---|---|---|---|
| Darpariaeth agoriadol | 280 | 136 | 89 |
| Darpariaeth a wnaed/(rhyddhawyd) yn ystod y flwyddyn | (253) | 144 | 47 |
| Darpariaeth wrth gau | 27 | 280 | 136 |

# Nodyn 11: Symiau derbyniadwy eraill

| | 31 Mawrth 2011 £000 | 31 Mawrth 2010 £000 | 31 Mawrth 2009 £000 |
|---|---|---|---|
| Symiau derbyniadwy eraill | 104 | 294 | 376 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 453 | 159 | 137 |
| Benthyciadau i gyflogeion | 5 | 7 | 19 |
| | 562 | 460 | 532 |

Mae symiau sy’n ddyledus ar ôl blwyddyn wedi’u cynnwys yn y ffigurau uchod:

| | 31 Mawrth 2011 £000 | 31 Mawrth 2010 £000 | 31 Mawrth 2009 £000 |
|---|---|---|---|
| Wedi’u cynnwys mewn dyledwyr eraill: | | | |
| – Cynllun adleoli tai: blaensymiau i staff | 3 | 5 | 14 |

Gellir dadansoddi balansau’r symiau derbyniadwy yn Nodiadau 10 ac 11 o dan y categorïau canlynol:

| | 31 Mawrth 2011 £000 | 31 Mawrth 2010 £000 | 31 Mawrth 2009 £000 |
|---|---|---|---|
| Cyrff llywodraeth ganolog | 845 | 612 | 651 |
| Cyrff llywodraeth leol | 744 | 736 | 1,171 |
| Cyrff y GIG | 456 | 755 | 565 |
| Balansau â chyrff y tu allan i'r llywodraeth | 123 | 384 | 501 |
| | 2,168 | 2,487 | 2,888 |

# Nodyn 12: Arian parod a’r hyn sy’n cyfateb i arian parod

| | 2010-11<br>£000 | 2009-10<br>£000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | 3,296 | 1,056 |
| Newid net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | 720 | 2,240 |
| Balans ar 31 Mawrth | 4,016 | 3,296 |

| | 31 Mawrth<br>2011<br>£000 | 31 Mawrth<br>2010<br>£000 | 31 Mawrth<br>2009<br>£000 |
|---|---|---|---|
| Cyfrif cyfredol | 3,060 | 2,344 | 759 |
| Cyfrif Ewro | 1 | 1 | 0 |
| Y Gronfa Sterling Fyd-eang | 955 | 951 | 297 |
| | 4,016 | 3,296 | 1,056 |

Mae’r Cyfrif cyfredol yn cynnwys cyfleuster llog dros nos. Diben y gronfa Ewro yw symleiddio trafodion tramor achlysurol.

Darperir y Gronfa Sterling Fyd-eang gan Grŵp RBS. Nod y gronfa hon yw diogelu balansau cyfalaf hyd yn oed pan fo ansefydlogrwydd ariannol o fewn y marchnadoedd ariannol, tra’n cynnig adenillion marchnad arian cyfanwerthol. Mae’r gronfa wedi’i strwythuro i sicrhau y cynhelir y statws credyd uchaf, sef statws AAA neu statws cyfwerth, gydag asiantaethau graddio statws Standard & Poor, Fitch a Moody.

# Nodyn 13: Symiau masnach taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

| | 31 Mawrth 2011 £000 | 31 Mawrth 2010 £000 | 31 Mawrth 2009 £000 |
|---|---|---|---|
| Symiau masnach taladwy | 47 | 175 | 168 |
| TAW | 330 | 226 | 368 |
| Croniadau ar gyfer hawl gwyliau nas cymerwyd eto | 696 | 558 | 420 |
| Croniadau eraill | 598 | 625 | 549 |
| | 1,671 | 1,584 | 1,505 |

# Nodyn 14: Incwm gohiriedig

| | 31 Mawrth 2011 £000 | 31 Mawrth 2010 £000 | 31 Mawrth 2009 £000 |
|---|---|---|---|
| Incwm gohiriedig | 3,329 | 4,702 | 3,368 |
| | 3,329 | 4,702 | 3,368 |

Yn unol â safonau cyfrifyddu, mae'n ofynnol i ni asesu i ba raddau mae prosiectau wedi'u cwblhau, fel canran, a chydnabod y gyfran honno o'r incwm ffioedd disgwyliedig fel refeniw yn ystod y cyfnod. Mae incwm gohiriedig yn cyfeirio at incwm sydd wedi'i filio ond sydd heb ei gydnabod eto.

Mae incwm gohiriedig ar 31 Mawrth 2011 yn cynnwys swm o tua £400,000 a ad-dalwyd i gyrff archwilio ers y dyddiad hwnnw.

Gellir dadansoddi'r balansau taladwy yn Nodiadau 13 a 14 o dan y categorïau canlynol:

| | 31 Mawrth 2011 £000 | 31 Mawrth 2010 £000 | 31 Mawrth 2009 £000 |
|---|---|---|---|
| Cyrff llywodraeth ganolog | 125 | 66 | 74 |
| Cyrff llywodraeth leol | 1,686 | 2,711 | 2,197 |
| Cyrff y GIG | 1,567 | 1,931 | 1,208 |
| Corfforaethau cyhoeddus | 0 | 0 | 17 |
| Balansau â chyrff y tu allan i'r llywodraeth | 1,622 | 1,578 | 1,377 |
| | 5,000 | 6,286 | 4,873 |

# Nodyn 15: Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| | Dadfeiliadau | Ymddeoliadau cynnar a diswyddiadau | Cyfansymiau |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| **1 Ebrill 2009** | | | |
| - Gwreiddiol | 97 | 0 | 97 |
| - Addasiad o'r flwyddyn flaenorol | 0 | 791 | 791 |
| - Ailddatganwyd | 97 | 791 | 888 |
| Darparwyd yn 2009-10: | | | |
| - Gwreiddiol | 48 | 715 | 763 |
| - Addasiad o'r flwyddyn flaenorol | 0 | 747 | 747 |
| - Ailddatganwyd (lle y bo'n berthnasol) | 48 | 1,462 | 1,510 |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | | | |
| - Gwreiddiol | (65) | 0 | (65) |
| - Addasiad o'r flwyddyn flaenorol | 0 | (202) | (202) |
| - Ailddatganwyd (lle y bo'n berthnasol) | (65) | (202) | (267) |
| **31 Mawrth 2010 (ailddatganwyd)** | 80 | 2,051 | 2,131 |
| *Darparwyd yn ystod y flwyddyn* | 38 | 406 | 444 |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | 0 | (994) | (994) |
| **31 Mawrth 2011** | 118 | 1,463 | 1,581 |

Dadansoddiad o'r amseru disgwyliedig:

| | | | |
|---|---|---|---|
| O fewn blwyddyn | 0 | 458 | 458 |
| Dros flwyddyn ond o fewn pum mlynedd | 118 | 825 | 943 |
| Dros bum mlynedd | 0 | 180 | 180 |
| **Cyfansymiau** | 118 | 1,463 | 1,581 |

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dadfeiliadau'n rhoi amcangyfrif o'r costau y gallai Swyddfa Archwilio Cymru fynd iddynt wrth wella'r eiddo a brydlesir ganddi ar ddiwedd y prydlesi. Cyfrifir dadfeiliadau drwy gymhwyso cyfradd ddadfeilio flynyddol i arwynebedd llawr yr ased a brydlesir.

Mae'r darpariaethau ar gyfer ymddeoliadau cynnar a diswyddiadau'n cyfeirio at rwymedigaeth Swyddfa Archwilio Cymru yn y dyfodol mewn perthynas ag aelodau o staff sydd wedi gadael o dan gynlluniau dileu swyddi, ymddeol yn gynnar a diswyddo.

# Nodyn 16: Ymrwymiadau ariannol

Roedd ymrwymiadau refeniw ar 31 Mawrth 2011 o ran prydlesi ceir na ellir eu canslo sy’n dod i ben:

| | **31 Mawrth 2011 £000** | **31 Mawrth 2010 £000** |
|---|---|---|
| O fewn blwyddyn | 51 | 10 |
| O fewn blwyddyn i bum mlynedd | 419 | 582 |
| | 470 | 592 |

Roedd ymrwymiadau refeniw ar 31 Mawrth 2011 o ran prydlesi swyddfeydd sy’n dod i ben:

| | **2011 £000** | **2011 Nifer yr eiddo** | **2010 £000** | **2010 Nifer yr eiddo** |
|---|---|---|---|---|
| O fewn blwyddyn | 0 | 0 | 0 | 0 |
| O fewn blwyddyn i bum mlynedd | 231 | 3 | 135 | 2 |
| Dros bum mlynedd | 4,293 | 1 | 4,825 | 2 |
| | 4,524 | 4 | 4,960 | 4 |

Adolygir rhent prydlesi swyddfeydd yn rheolaidd.

# Nodyn 17: Colledion a thaliadau arbennig

**Taliadau arbennig:**
Gadawodd nifer o gyflogeion o dan gynlluniau ymddeol gwirfoddol ac ymddeol yn gynnar yn ystod 2010-11 a 2009-10, fel y datgelir yn Nodiadau 4(i) a 5.

**Colledion:**
Talwyd £1,080 am hyfforddiant a ddarparwyd i Mr Anthony Snow ar ôl ei ddiwrnod olaf o waith gyda Swyddfa Archwilio Cymru. Ni fu'r taliad o unrhyw werth economaidd i Swyddfa Archwilio Cymru.

Nid oedd unrhyw golledion na thaliadau arbennig eraill i'w datgelu yn 2010-11 na 2009-10.

# Nodyn 18: Deilliadau ac offerynnau ariannol

Mae IAS 32 *Offerynnau Ariannol: Datgelu a Chyflwyno* ac IAS 39 *Offerynnau Ariannol: Cydnabod a Mesur* yn ei gwneud yn ofynnol i ddatgelu'r rôl y mae offerynnau ariannol wedi'i chwarae yn ystod y cyfnod o ran creu neu newid y risgiau y mae endid yn eu hwynebu wrth gyflawni ei weithgareddau. Oherwydd natur gweithgareddau'r Archwilydd Cyffredinol a'r modd y caiff y gweithrediadau eu hariannu, nid yw'r Swyddfa'n agored i lefel uchel o risg ariannol. Er y gall yr Archwilydd Cyffredinol fenthyca arian, ni fu'n rhaid i'r Swyddfa wneud hynny yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Gall yr Archwilydd Cyffredinol fuddsoddi arian dros ben hefyd, a gwna hynny drwy gyfrif llog dros nos a thrwy'r Gronfa Sterling Fyd-eang (gweler Nodyn 12). Nid yw'r gweithgareddau hyn yn peri unrhyw risgiau ariannol sylweddol.

**Risg o hylifedd**

O gofio natur ein busnes, ni oddefir lefel uchel o risg o ran rheoli ariannol. Yn sgîl yr agwedd hon, a chefnogaeth Cronfa Gyfunol Cymru, nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn agored i risgiau sylweddol o ran hylifedd.

**Risg cyfradd llog**

Nid yw asedau na rhwymedigaethau ariannol yr Archwilydd Cyffredinol, ac eithrio incwm buddsoddi, yn agored i risg cyfradd llog.

**Risg arian cyfred tramor**

Mae'r graddau y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn agored i risg arian cyfred tramor yn fach iawn gan mai dim ond pryniannau bach iawn o arian cyfred tramor a wna ymlaen llaw mewn perthynas â theithio tramor a chostau cysylltiedig eraill megis gwestai. Hefyd, caiff unrhyw ffioedd o waith neu secondiadau tramor eu trosi pan ddônt i law. Cofnodir unrhyw wahaniaethau cyfnewid yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn wrth gyfrifo'r warged weithredu.

**Gwerthoedd teg**

Nid oes gwahaniaeth rhwng gwerthoedd llyfr a gwerthoedd teg asedau a rhwymedigaethau ariannol yr Archwilydd Cyffredinol ar 31 Mawrth 2011 (31 Mawrth 2010: dim).

# Nodyn 19: Rhwymedigaethau wrth gefn

Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi parhau i ddefnyddio'r triniaethau TAW a fabwysiadwyd gan gyrff rhagflaenol, sef Comisiwn Archwilio Cymru a Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru. Mae trafodaethau wedi bod yn mynd rhagddynt â Chyllid a Thollau EM ers sawl blwyddyn i gadarnhau statws TAW yr Archwilydd Cyffredinol a phennu statws priodol ei gyflenwadau TAW. Ar hyn o bryd nid yw'n bosibl dweud a fydd unrhyw rwymedigaeth yn crisialu, ac os felly, beth fyddai swm tebygol rhwymedigaeth o'r fath. Pe bai rhwymedigaeth sylweddol yn crisialu, byddai angen i'r Archwilydd Cyffredinol gael arian o Gronfa Gyfunol Cymru neu ffioedd archwilio ychwanegol i fodloni'r rhwymedigaeth honno.

# Nodyn 20: Trafodion â phartïon cysylltiedig

Unig gorfforaeth yw'r Archwilydd Cyffredinol a sefydlwyd o dan statud ac mae wedi cynnal nifer o drafodion perthnasol gyda Chronfa Gyfunol Cymru a'r cyrff a archwilir ganddo ef a'i archwilwyr penodedig.

Yn ystod y flwyddyn, nid oedd unrhyw aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg, aelodau o staff allweddol na'u partïon cysylltiedig wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion perthnasol gyda'r Archwilydd Cyffredinol.

# Nodyn 21: Addasiadau o'r flwyddyn flaenorol

Gwnaed yr addasiadau canlynol i'r ffigurau a roddwyd yn flaenorol ar gyfer 2009-10:

**Arian Cronfa Gyfunol Cymru**

Cafodd y swm o £5,047,000 ei gynnwys yn anghywir fel incwm yn Natganiad o Incwm Cynhwysfawr 2009-10. Ailddosbarthwyd yr arian hwn o dan y categori ecwiti trethdalwyr ac ailddatganwyd ffigurau cymharol 2009-10 yn unol â hynny. Roedd yr arian hwn yn cynnwys swm derbyniadwy o £27,000 am arian parod nas defnyddiwyd oddi wrth Gronfa Gyfunol Cymru, sydd heb ei gynnwys fel rhan o arian Cronfa Gyfunol Cymru na dyledwyr yn y datganiadau hyn.

**Darpariaeth ar gyfer ymddeoliadau cynnar**

Ni chafodd y darpariaethau llawn ar gyfer costau ymddeoliadau cynnar a diswyddiadau eu cynnwys yng nghyfrifon 2009-10 na chyfrifon blynyddoedd blaenorol. Yng nghyfrifon 2010-11 gwnaed addasiad blwyddyn flaenorol i gywiro'r gwall hwn. Adlewyrchir hyn yn Nodyn 15, darpariaethau, a'r Datganiad o Ecwiti Trethdalwyr, sy'n dangos effaith ariannol yr addasiad a wnaed i'r flwyddyn flaenorol.

**Cost cyfalaf**

Fel sy'n ofynnol gan Drysorlys EM, ailddatganwyd ffigurau 2009-10 i ddileu cost dybiannol taliadau cyfalaf yn unol â newidiadau i'r Llawlyfr Cyflwyno Adroddiadau Ariannol. Mae'r taliad o £4,000 a wnaed yn 2009-10, a'r ad-daliad cyfatebol a wnaed ar gyfer y swm hwnnw (£4,000) yn ystod y flwyddyn, wedi'u hepgor o'r ffigurau cymharol yn y cyfrifon hyn.

# Adroddiad Archwilydd Cyffredinol yr Alban i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

## Cyflwyniad

1. Cyflwynaf y cyfrifon hyn a'm tystysgrif archwilio, ynghyd â'r adroddiad hwn, a baratowyd gennyf o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Rhoddwyd barn archwilio ddiamod ar y cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011. Mae fy nhystysgrif archwilio yn cynnwys fy marn bod y datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a chyfarwyddiadau a wnaed gan Drysorlys EM o dan y ddeddf honno. Mae hefyd yn cynnwys fy marn bod y gwariant a'r incwm a ddangoswyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Cefndir yr Adroddiad

2. Yn ystod 2010/11 cynhaliodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru nifer o wrandawiadau ynglŷn â chyfrifon 2009/10 Archwilydd Cyffredinol Cymru a materion cysylltiedig, a arweiniodd at ei adroddiad ym mis Mawrth 2011 o'r enw "Materion yn ymwneud â chyfrifo, llywodraethu a phriodoldeb yn Swyddfa Archwilio Cymru".

3. Fel rhan o'm harchwiliad o gyfrifon 2010/11 rwyf wedi ystyried y ffordd yr ymdriniwyd ag argymhellion y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus mewn perthynas â chyfrifon 2009/10, a chofnodaf fy nghanfyddiadau yn yr adroddiad hwn.

4. Er mwyn unioni'r methiannau yn y datganiadau ariannol blaenorol, argymhellodd y Pwyllgor y canlynol:

   - y dylai Swyddfa Archwilio Cymru geisio **cyfarwyddyd wedi'i ddiweddaru ynglŷn â'r cyfrifon** gan Drysorlys EM **i adlewyrchu pasio Deddf Llywodraeth Cymru 2006**, sefydlu Cronfa Gyfunol Cymru, a'r gofyniad statudol i wariant Swyddfa Archwilio Cymru gael ei awdurdodi gan gynnig cyllidebol gan y Cynulliad;

   - **y dylai cyfrifon 2010/11 gydymffurfio'n llawn** â'r cyfarwyddyd diwygiedig ynglŷn â'r cyfrifon a'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol gan ystyried yr holl **faterion cyfrifyddu ac adrodd blaenorol** a godwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ac eraill;

   - yn benodol, y dylid **ailddatgan ffigurau cymharol 2009/10** sydd i'w dangos yng nghyfrifon 2010-11 gyda nodyn yn cadarnhau'r gwariant dros ben am y flwyddyn honno. Mater i'r Archwilydd Cyffredinol yw penderfynu sut, a thros ba gyfnod y dylid adfer y cronfeydd wrth gefn negyddol canlyniadol, ond dylai ei gynlluniau ar gyfer gwneud hynny hefyd gael eu datgelu.

5. Isod, ystyriaf bob un o'r argymhellion hyn yn eu tro.

# Cyfarwyddyd diwygiedig ynglŷn â'r cyfrifon sy'n adlewyrchu pasio Deddf Llywodraeth Cymru 2006

6. Gofynnwyd i Drysorlys EM am gyfarwyddyd newydd ynglŷn â'r cyfrifon ym mis Rhagfyr 2010, a daeth drafft i law ym mis Ionawr 2011. Ar ôl ymgynghori â Llywodraeth Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac Audit Scotland, cyhoeddwyd cyfarwyddyd terfynol ym mis Mehefin 2011.

7. Elfen allweddol o'r argymhelliad hwn oedd mabwysiadu datganiad sylfaenol newydd, y Crynodeb o Alldro Adnoddau, sy'n cofnodi alldro yn erbyn y defnydd o adnoddau a awdurdodir gan gynnig cyllidebol gan y Cynulliad. Eleni mae'r datganiad newydd hwn yn dangos bod gwariant yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer 2010/11 o fewn y terfynau adnoddau ac arian parod a bennwyd gan gynnig cyllidebol perthnasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae cyfrifon yr Archwilydd Cyffredinol yn ymdrin â gweithgaredd awdurdodau lleol, nad yw'n rhan o'r cynnig cyllidebol, a gweithgaredd llywodraeth ganolog a'r GIG sy'n sail i'r cynnig cyllidebol. Felly mae'r polisi cyfrifyddu ar ddyrannu costau yn hanfodol i bennu'r gyllideb a chyflwyno'r sefyllfa o ran alldro.

8. Yn unol ag argymhellion y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ac eraill, mae'r polisi cyfrifyddu ar gyfer dyrannu costau wedi cael ei ddiweddaru i egluro'r arfer yn y maes hwn, gan gadarnhau'r egwyddorion cyfrifyddu sydd wedi cael eu cymhwyso'n gyson wrth lunio cyllidebau a nodi alldro yn 2010/11 a blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, cydnabyddir hefyd fod angen i'r trefniadau hyn gael eu hadolygu yn y dyfodol er mwyn sicrhau y gellir dangos yn glir y ffordd y dyrennir costau ac felly'r ffordd y cydymffurfir â darpariaethau pennu ffioedd Deddf Llywodraeth Cymru 2006 o adeg cyflwyniad cyllidebol Archwilydd Cyffredinol Cymru i gynnig cyllidebol y Cynulliad a'r adroddiadau ariannol dilynol.

9. Drwy weithredu'r cyfarwyddyd newydd ynglŷn â'r cyfrifon sicrhawyd hefyd fod arian oddi wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael ei gyfrif yn gywir fel symudiad ar gronfeydd wrth gefn yn hytrach nag incwm, fel y digwyddodd gynt.

## Dylai cyfrifon 2010/11 gydymffurfio'n llawn â'r materion cyfrifyddu ac adrodd a godwyd

10. Cafwyd nifer o argymhellion manwl yn yr adroddiadau gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ac archwiliad mewnol Swyddfa Archwilio Cymru. Roedd yr argymhellion ynglŷn â chyfrifon 2010/11 yn ymwneud ag ailddatgan ffigurau i gyfrif am ymrwymiadau pensiwn yn unol â safonau cyfrifyddu (gweler isod); datgelu cydnabyddiaeth Archwilydd Cyffredinol Cymru; adolygiad o'r ffordd y cyfrifyddir ar gyfer drwgddyledion; a'r trefniadau llywodraethu ac adolygu a ymgorfforwyd yn y broses o baratoi'r cyfrifon. Mae pob argymhelliad a oedd yn ymwneud â chyfrifon 2010/11 wedi cael ei weithredu, gydag un eithriad, sy'n ymwneud â chyfrifyddu ar gyfer cydnabyddiaeth Archwilydd Cyffredinol Cymru.

11. Argymhellodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol y dylid gwneud datgeliad manylach o gydnabyddiaeth Archwilydd Cyffredinol yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth a chynnwys y costau yn y cyfrifon eu hunain; wrth wneud yr argymhelliad hwn cydnabu'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol y byddai angen cynnwys amrywiol gofnodion tybiannol a chysoniadau yn y cyfrifon am fod y costau yn cael eu talu'n uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru. Cytunaf â barn Swyddfa Archwilio Cymru bod y datganiad manylach yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth yn briodol ac yn ddigonol; ac y byddai cofnodion tybiannol yn unol ag argymhellion y Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi ychwanegu cymhlethdod diangen.

# Ffigurau cymharol 2009/10 sydd i'w hailddatgan

12. Mae ffigurau 2009/10 wedi cael eu hailddatgan i gyfrif am ymddeoliadau cynnar yn unol â safonau cyfrifyddu. Golygai hyn fod angen cyfanswm Addasiad Cyfnod Blaenorol o £1.336 miliwn o gymharu â'r sefyllfa nodwyd gynt. Mae gan y cronfeydd wrth gefn ar 31 Mawrth 2010 ddiffyg o £1.246 miliwn, o gymharu â'r sefyllfa a nodwyd gynt, sef gwarged o £0.117 miliwn. Yn unol â rheolau atebolrwydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, nodir Addasiad Cyfnod Blaenorol ynglŷn â'r defnydd o adnoddau ar y cyfrifon yn y Crynodeb o Alldro Adnoddau ar gyfer 2010/11, gan nad oedd wedi'i nodi ar y cyfrifon mewn blynyddoedd blaenorol. Drwy gymhwyso'r polisi cyfrifyddu ynglŷn â dyrannu costau (gweler paragraff 8 uchod), nodir £0.544 miliwn o gyfanswm yr Addasiad Cyfnod Blaenorol yn y Crynodeb o Alldro Adnoddau, sef y gyfran y gellir ei phriodoli i Lywodraeth Ganolog a gwaith y GIG. Ynghyd â chyfran briodol o wariant cyfalaf, mae cyfanswm gwariant cyfalaf yn dal i fod o fewn y terfyn o £5.047 miliwn a bennwyd yngNghynnig Cyllidebol 2010/11. Mae'r gofyniad arian parod net hefyd yn dal i fod o fewn y terfyn cyfatebol o £5.074 miliwn. Dengys y cyfrifon fod angen ad-dalu £0.629 miliwn i Gronfa Gyfunol Cymru.

13. O ran sefyllfa'r cronfeydd wrth gefn net ar 31 Mawrth 2011 mae cronfeydd wrth gefn o £0.162 miliwn ar gael. Mae'r newid o'r diffyg o £1.246 miliwn a ailddatganwyd ar 31 Mawrth 2010 yn adlewyrchu'r gostyngiad sylweddol mewn gwariant net yn 2010/11 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

14. Nid yw'r ffigurau cymharol ar gyfer y Crynodeb o Alldro Adnoddau ar gyfer 2009/10 wedi'u cynnwys. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith nad oedd gwariant cyfalaf, mewn blynyddoedd blaenorol, wedi ei adnabod yn unigol yn y gyllideb na'r alldro yn erbyn y gyllideb a nodwyd yn y cyfrifon. Ystyrir y mater hwn yn yr adolygiad o gyllidebu ac adrodd a nodwyd ym mharagraff 8.

# Casgliadau

15. Mae'r camau gweithredu a argymhellwyd yn sgîl yr adolygiadau a gynhaliwyd a'r adroddiad i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus mewn perthynas â pharatoi cyfrifon 2010/11 Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cael eu cymryd. Roedd hyn yn cynnwys: cyfarwyddyd newydd ynglŷn â'r cyfrifon gan Drysorlys EM; ailddatgan ffigurau cyfrifon 2009/10, yn enwedig i gyfrif yn briodol am rwymedigaethau pensiwn; a mabwysiadu fformat cyfrifyddu ar sail adnoddau.

16. Mae'r gwaith o ddatblygu trefniadau cyllidebu a dyrannu costau ymhellach yn mynd rhagddo fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer cyflwyno cyllideb Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer 2012/13. Dylai hyn arwain at sail well ar gyfer amcangyfrifon, adroddiadau ariannol ac atebolrwydd yn y dyfodol.

ROBERT W BLACK
Archwilydd Cyffredinol yr Alban
9 Medi 2011